# Y DINESYDD

Mawrth 2021
Papur Pobl Caerdydd a'r Fro
Rhif 456 £1




Sant Illtud - Seintiau Bro Morgannwg
tud. 3



Stacy, Geraint ac Eifion Gruffydd
tud. 17



Mati Roberts MyW Y Felin
tud. 6

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Eiry Palfrey**

***Golygydd Ebrill***
***Miranda Morton***

Cyfraniadau erbyn 27 Mawrth i:
miranda.morton@virginmedia.com
32 Stryd Arthur, Y Rhath,
Caerdydd, CF24 1QR
0771 3765692

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd, Caerdydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print: Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol
gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Y DINESYDD A'R PANDEMIG

Ar ddechrau Cyfnod y Clo y llynedd fe benderfynodd pwyllgor y Dinesydd barhau i gyhoeddi'r papur a'i ddosbarthu ar-lein yn rhad ac am ddim i bawb. Rhoddwyd y rhifynnau misol hefyd ar wefan y Dinesydd ac ar blatfform Golwg, Bro_360.

Ar gais rhai oedd heb yr adnoddau digidol angenrheidiol, fe argraffwyd nifer o gopïau caled a'u dosbarthu â llaw. Diolch i'r tîm o ddosbarthwyr gwirfoddol. Gwerthfawrogwyd y gwasanaeth hwn yn fawr. Bydd tua 200 o rifynnau Chwefror a Mawrth yn cael eu dosbarthu yn yr un modd i'r rhai sydd eisoes wedi gwneud cais.

Mae ein tanysgrifwyr arferol wedi ymateb yn bositif iawn i'r sefyllfa; pawb wedi cytuno i'w tanysgrifiadau gael eu cyfrif fel rhodd am y flwyddyn 2020-21 – a nifer wedi anfon cyfraniadau ychwanegol. Diolchwn i bawb am eu cefnogaeth. Diolchwn hefyd i Eglwys Minny Street, Eglwys Salem, Treganna, a Chylch Cinio Cymry Caerdydd am eu rhoddion hael yn ystod y cyfnod hwn.

Mae ein diolch yn fawr hefyd i bawb sy wedi cyfrannu deunydd ar gyfer yr holl rifynnau. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn i ansawdd y cynnwys.

**Beth am 2021-2022?**

Rhaid cymryd yn ganiataol na fydd pethau nôl i normal am gryn amser eto ac na fydd modd dosbarthu rhifynnau i ganolfannau fel y capeli a'r eglwysi a'r ysgolion a'r cymdeithasau fel o'r blaen.

Felly, am y flwyddyn 2021-22, gan ddechrau ym mis Ebrill, dyma'r drefn a'r tanysgrifiadau newydd a gytunwyd gan y pwyllgor. Gall ein darllenwyr ddewis un o'r ffyrdd canlynol i gael eu copi. (Gweler y ffurflen danysgrifio.)

Pris copi caled - **£1.20** (yn y siopau os byddant ar agor)

Tanysgrifiad am flwyddyn:

**£10** - derbyn copi pdf trwy e-bost

**£12 -** derbyn copi caled mewn canolfan (neu trwy law dosbarthwr lleol hyd nes y bydd y canolfannau lleol yn ail-agor)

**£18** – derbyn copi caled trwy'r post

Os ydych chi'n arfer derbyn eich copi caled mewn canolfan neu mewn cymdeithas, yna y tanysgrifiad i chi fydd £12 – ac fe drefnwn ni eich bod yn ei dderbyn trwy'r drws hyd nes y bydd y sefydliadau yn ailagor.

Mae'r 'gwasanaeth' hwn yn dibynnu ar wirfoddolwyr i ddosbarthu'n lleol. Os ydych chi'n teimlo y gallwch chi helpu i ddosbarthu i rai cartrefi yn eich ardal chi, yna byddai Arthur, ein Cydlynydd Dosbarthu, yn falch o glywed wrthoch chi. (Gweler ei fanylion cysylltu yn y golofn ar y chwith.)

Ar ran y pwyllgor, diolch i chi am gefnogi'r *Dinesydd*, a Blwyddyn Newydd Well i bawb.

*Bryan James*
*(Cadeirydd)*

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd* ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd**

**ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Seintiau Bro Morgannwg

## Ann Jones

Yn y 5ed a'r 6ed Ganrif - roedd nifer o seintiau pwysig yn gysylltiedig â Bro Morgannwg. Enwyd dwy o ysgolion cynradd Cymraeg y Barri ar ôl Sant Baruc a Sant Curig.

Y sant pwysicaf oedd SANT ILLTUD - Illtud Farchog. Cafodd ei eni ym Morgannwg tua 475 OC a dywed un traddodiad iddo briodi gwraig o'r enw Trynihid, ond iddyn nhw benderfynu gwahanu a threulio gweddill eu bywydau yng ngwasanaeth yr Arglwydd - hi fel Abes a sefydlodd leiandy ac yntau fel mynach.

Sefydlodd Illtud fynachlog a chanolfan ddysg bwysig yn Llanilltud Fawr. Astudiwyd Lladin, Groeg, Athroniaeth, Diwinyddiaeth, Barddoniaeth, Gramadeg, Mathemateg ac ati yno. Disgrifir Illtud gan Samson Sant o Lydaw, a fu'n astudio yno, fel gŵr mwyaf disglair ei ddydd. Heidiai cyw fyneich yno o bob rhan o Brydain, Llydaw a Ffrainc. Gwyddom i'r seintiau Gildas, Tudwal, Deiniol - a Dewi fod yn ddisgyblion i Illtud. Ac mae un traddodiad yn dweud i'r bardd Taliesin ymweld â Llanilltud hefyd. Mae nifer fawr o eglwysi wedi'i cysegru i Sant Illtud trwy dde Cymru – ac un ar Ynys Bŷr - hefyd yn Llydaw - ac un yng ngogledd Cymru, sef Llanelltyd ger Dolgellau.




***Llun: Wikipedia***

Un o gyfeillion Sant Illtud oedd SANT CADOG/CATWG - a roddodd Llangatwg a Llangadog i ni. Yn ôl ei 'Fuchedd' a ysgrifenwyd yn y 12fed Ganrif, roedd yn fab i Gwynllyw, Tywysog Gwynllŵg, a Gwladus, merch Brychan Brycheiniog. Treuliodd ei ieuenctid ym myddin ei dad ond yna penderfynodd gysegru ei fywyd i'r Arglwydd. Teithiodd yn eang yn pregethu - trwy dde Cymru, Iwerddon, Llydaw a'r Alban.

Sefydlodd Cadog fynachlog yn Nant Carfan - Llancarfan heddiw - ac mae traddodiad yn dweud iddo gyflawni nifer o wyrthiau. Mae hanes am Gildas yn galw yn y fynachlog ar ei ffordd i Rufain dan gludo cloch hardd fel anrheg i'r Pâb. Roedd Cadog yn chwennych y gloch ond gwrthododd Gildas ac aeth ymlaen ar ei daith i Rufain, gan gyflwyno'r gloch i'r Pâb. Ond nid ddaeth unrhyw sŵn ohoni ac aeth Gildas â hi yn ôl a'i rhoi i Gadog - a barodd bod sain swynol i'w glywed pan gafodd ei tharo.

Disgybl i Sant Cadog oedd SANT BARUC. Dywedir ei fod ef a Sant Cadog, wedi mynd draw i Ynys Echni, gyda'r disgybl yn cario deunydd darllen ei athro. Pan gyrhaeddon nhw'n ôl i'r tir mawr sylweddololdd Baruc ei fod wedi gadael llyfr Cadog ar Echni. Mynnodd Cadog fod Baruc yn mynd i'w nôl - ond ar y ffordd boddodd y sant ifanc. Golchwyd ei gorff i fyny ar draeth Ynys y Barri a chladdwyd ef ar yr ynys. Mae olion capel Baruc, o'r 7fed Ganrif, i'w weld ar yr Ynys. Ac mae ffynnon a enwyd ar ôl y sant i'w gweld yno. Mae diwedd hynod i'r stori. Daliodd pysgotwr bydgodyn sylweddol ac fe'i rhoddodd i Cadog. Pan aethpwyd ati i rannu'r pysgodyn, daethpwyd o hyd i lyfr Cadog y tu mewn iddo - y llyfr a gollwyd pan foddodd Baruc!

Dywedir i SANT CURIG. lanio yn ardal Aberystwyth - ond o ble y daeth, ni wyddom. Dechreuodd grwydro ac efengylu - ac mae'n bosibl iddo gael seibiant yn Eisteddfa Gurig ar y ffordd rhwng Aberystwyth a Llangurig, lle sefydlwyd ei brif eglwys. Roedd yn nodedig am gario ffon fugeiliol hardd iawn - wedi'i haddurno ag aur ac arian. Cymysgwyd ei enw dros y blynyddoedd ag enw sant arall Cyricus. Teithiodd i sawl man yng Nghymru gan gynnwys Capel Curig yn y gogledd ac ardal y Barri yn y de, lle gwelir ei goffáu yn yr enw Porthceri. Teithiodd hefyd i Lydaw, lle mae nifer o eglwysi wedi'u cysegru iddo ac yno, yn Landerneau, y bu farw.

*(Gweler llun Sant Illtud ar y clawr)*

# Tanysgrifio i'r Dinesydd 2021 Ym Mro Morgannwg

Hwn yw'r rhifyn OLAF o'r *Dinesydd* sy'n rhad ac am ddim (naill ai gopi caled neu ar lein). Dyma nodyn i rai o drigolion Y Fro ar sut i gael eich copi yn y dyfodol.

Yn Rhifyn Chwefror o'r *Dinesydd*, roedd yna ffurflen i alluogi darllenwyr *Y Dinesydd* i danysgrifio am y flwyddyn 2021.

Fel ychwanegiad i'r ffurflen, mae'n bosib i drigolion Penarth, Dinas Powys, Llandochau a Sili fanteisio ar system o dderbyn copi drwy'r drws am y flwyddyn.

Lle bynnag rydych yn byw o fewn dalgylch y Dinesydd, mae'n bosib derbyn copi ar lein am £10 y flwyddyn, derbyn copi caled trwy ddefnyddio canolfan leol am £12 y flwyddyn neu dderbyn copi caled trwy'r post am £18 y flwyddyn. Cyhoeddir 10 rhifyn dros y flwyddyn Ebrill 2021 i Fawrth 2022
Os ydych yn byw ym Mhenarth, Dinas Powys, Llandochau neu Sili, mae gwirfoddolwyr yn barod i ddosbarthu'r *Dinesydd* drwy ddrws eich tŷ am daliad o £12 y flwyddyn. Os am fwy o wybodaeth sut i gael *Y Dinesydd* trwy'r drws yna cysylltwch ag Alun Daniel - rhif ffôn 029 20 708591 neu trwy e-bostio alundaniel@btinternet.com.

# Colofn G.R.



*"Darllenais erthygl am gyflwr bregus yr iaith Gaeleg yn yr Alban."*

'Dan ni yn y trydydd mis o'r flwyddyn yn barod ac er gwaethaf popeth mae'r amser yn pasio fel y gwynt! Er nad oedd hi'n bosibl dathlu Gŵyl ein Nawddsant yn y ffordd arferol eleni gobeithio eich bod o leiaf wedi paratoi cawl cennin i ginio a phice ar y mân a bara brith i de ar y diwrnod!

Er bod llygedyn o obaith o'n blaenau drwy'r brechlynnau 'dan ni'n wynebu blwyddyn ddi-ddiwylliant eto gan na chynhelir Eisteddfod yr Urdd, y Genedlaethol, Llangollen, Tafwyl na'r Ŵyl Gerdd Dant ac ati ond rhaid canmol pawb am eu hymdrechion clodwiw i gynnal digwyddiadau rhithiol di-ri dros y rhyngrwyd a *Zoom* a chadw'r fflam ddiwylliannol yn fyw.

Mae pethau wedi lled-dawelu yn yr Unol Daleithiau bellach ac mae Joe Biden wrthi'n brysur yn ceisio lleddfu'r drwg a ddigwyddodd yn ystod cyfnod Donald Trump fel Arlywydd ei wlad. Ond os ydy pethau wedi lled-dawelu yn yr Unol Daleithiau nid felly mewn mannau eraill o'r byd megis Myanmar (Burma), Syria, Twrci, Yemen, Hong Kong, Belarus, Rwsia a Tseina a hwyrach ddylwn ni fod yn cyfrif ein bendithion er gwaethaf ein problemau gan ein bod yn dal i fyw mewn gwlad ddemocrataidd a heddychlon.

Yn rhifyn Chwefror o'r cylchgrawn *Barn* darllenais erthygl am gyflwr bregus yr iaith Gaeleg yn yr Alban a thrist ydy sylweddoli mai ond tua 11,000 yn unig sy ar ôl yn siarad yr iaith yn eu bywydau bob dydd a llawer o'r bobl hyn yn byw ar yr ynysoedd yng ngorllewin y wlad.

Blynyddoedd lawer yn ôl bellach es i ar daith haf yr Urdd i Ynys Skye yn yr Alban dan arweiniad Dr Iolo Wyn Williams, mab W. D. Williams y Bermo a chroeson ni i'r ynys ar fferi gan nad oedd pont yn cysylltu'r ynys â'r tir mawr wedi ei hadeiladu y pryd hynny. Gwersyllon ni ar safle yn agos at dre Portree gan ymweld â gwahanol rannau o'r ynys oddi yno.

Y bore Sul wedi i ni gyrraedd yr ynys penderfynon ni fynd i Wasanaeth Gaeleg yn yr eglwys gerllaw ein man gwersylla a'r dyn wrth y drws yn dweud wrthon ni fod na wasanaeth Saesneg lawr y ffordd ond mynnon ni aros i fynychu'r gwasanaeth Gaeleg.

Wel sôn am brofiad dieithr! Roedd rhaid sefyll am amser wrth i'r pregethwr weddïo ac yna roedd codwr canu yn arwain yr emynau, a'r gynulleidfa yn ail adrodd pob llinell ar ôl y codwr canu fel roedd yn digwydd yng nghapeli Cymru ers talwm cyn bod 'na organ ar gael. Erbyn y bregeth roedd nifer o'n criw yn dechrau pendwmpian ond fe geisiais i wrando heb ddeall yr un gair nes i mi glywed y gair "*Agus*" drosodd a throsodd a sylweddoli o'r diwedd mae'r gair Gaeleg am 'a' odd yr ystyr!

Y llynedd roedd y bathodyn bach oren ar ffurf swigen neu dafod yn bymtheg oed. Dyma fathodyn sy'n dynodi bod y person sy'n ei wisgo yn medru Cymraeg ac yn annog pobl i siarad Cymraeg â'r person. Dosberthir 50,000 o'r bathodynnau hyn yn flynyddol a felly cadwch lygad ar agor am bobl sy'n gwisgo'r bathodyn hwn sy'n ceisio rhoi hwb i'r defnydd o Gymraeg yn ein cymdeithas.

Mae'r holl gyfyngiadau ar y gymdeithas oherwydd y firws wedi golygu bod rhai sy'n gorfod treulio llawer o amser yn eu tai wedi bod yn edrych am bethau i'w difyrru, ac o ganlyniad mae miloedd o bobl, nid yn unig yng Nghymru, ond dros y byd wedi dechrau dysgu Cymraeg hefo cyrsiau ar y we gan Gwmni *Duolingo* a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yng Nghaerfyrddin. Go dda yntê?

Ychydig fisoedd yn ôl yn y golofn hon bues i'n gofidio am ddirywiad yn yr iaith lafar, a phobl bellach yn ansicr o genedl geiriau digon cyffredin. Ers hynny dyma ragor o enghreifftiau o Gymraeg gwallus a glywais ar y radio a'r teledu – dwy fis, dau flwyddyn, tri gwlad, tri mil, dau ochr, tri blynedd, dau ffordd, tri gêm, dau linell ac ati! Gobeithio nad ydy darllenwyr y golofn hon yn euog o'r camgymeriadau hyn!

Llongyfarchiadau i Geraint Thomas, gynt o Lwynbedw fydd yn arwain Tîm Ineos yn Ras y *Tour de France* eleni a gobeithio y caiff well lwc y tro hwn ar ôl iddo syrthio a brifo ar ddechrau'r Ras *Giro d'Italia* y llynedd wrth daro can ar y ffordd. Byddai'n braf gweld y Ddraig Goch yn cyhwfan ar ddiwedd y ras ym Mharis unwaith eto!

Mae cyfnod Ethan Williams o Beddau ger Pontypridd fel Llywydd Mudiad yr Urdd wedi dod i ben a'i olynydd am y ddwy flynedd nesa fydd Mared Edwards o Borth Swtan ar Ynys Môn. Ar hyn o bryd mae hi'n astudio Cymraeg a Drama ym Mhrifysgol Aberystwyth a bydd hi'n dal yn y swydd pan bydd y Mudiad yn dathlu ei ganmlwyddiant yn 2022.



# Colofn Natur

*"Mae trysorau'r oes a fu mewn cerrig ar lan y môr"*



## Gethin Jenkins-Jones

Yn y byd sydd ohoni, a than fod helynt y pandemig wedi dod i ben, dwi'n siŵr bydd llawer ohonom yn fwy na hapus i wibio i ffwrdd mewn peiriant amser a ffoi i gyfnodau mwy tawel. Mae'n anffodus bod y fath ffantasi yn debygol o fod yn fythol gyfyngedig i raglenni Doctor Who, ond yn lwcus i ni yng Nghaerdydd, nid oes raid i ni deithio'n bell i weld sut fyd oedd Cymru yn ystod gwahanol adegau o'i hoes. Heddiw dwi eisiau mynd â chi i rywle lleol ond a fydd yn eich cyflwyno i fyd hollol wahanol.



*Chlamys* Gethin Jenkins-Jones

Mae'r traeth caregog o ben pellaf y Bae hyd at Bwynt Larnog yn gyfoeth o ffosiliau, ac mae cyfansoddiad y gwaddod a'r cerrig wedi ildio digon o gyfrinachau i ni gael darlun gymharol glir o'n byd rhwng 220 i 200 miliwn o flynyddoedd yn nôl - o ddiwedd y Triasig hyd at ddechrau'r Jwrasig. Felly'r mis hwn, hoffwn fynd â chi ar antur i'r gorffennol pell, at le a ddaeth yn Gymru.



**Ichthyosaur Erica Smith**

Efallai byddwch yn synnu clywed taw nad cyfandir oedd Ewrop yn ystod y Jwrasig cynnar, ond clwstwr o ynysoedd wedi'u hamgylchynu â moroedd bas. Roedd Cymru - oedd ar y pryd ynghlwm ond â rhannau dwyreiniol Lloegr - ar ledred tebyg i Fôr y Canoldir, ac roedd yr hinsawdd yn dwym, llaith a chymharol sefydlog. Wrth gerdded allan o'r peiriant amser byddwch yn gweld coed pinwydd anferth yn esgyn i'r awyr, ac efallai dail melyn y goeden ginko (sydd yn dal i dyfu heddi) yn loyw yn yr haul. Ni fydd glaswellt dan draed (a oedd eto i esblygu ymhen 150 miliwn blwyddyn arall) ac yn ei le bydd yr isdyfiant wedi'i ddominyddu gan redyn. Mae'n debygol byddwch yn gweld creaduriaid rhyfedd yn eu plith - rhai o'r deinosoriad cyntaf. Y Jwrasig oedd gwir gychwyn oes y deinosoriaid, ond roedd y rhai cyntaf yn fach eu maint. Prif ysglyfaethwr y pryd oedd y Dracoraptor, a fyddai wedi ysglyfaethu trychfilod a deinosoriaid llai. Gyda thaldra tebyg i ddyn, roedd yn fychan iawn i gymharu â'r ysglyfaethwyr enwog oedd i ddod. Mae'n bosib bod y tir yn gymharol dawel yn yr oes hon, ac efallai sŵn pry oedd prif sŵn cefndir y cyfnod. Roedd adar eto i ymddangos ac, yn yr awyr yn eu lle, hedfanai pterosoriaid. Wrth adael y goedwig i gerdded ar hyd traeth cyfagos, byddwch yn eu gweld yn disgyn o bryd i'w gilydd i gipio pysgod o'r môr.



**amonid Gethin Jenkins-Jones**

Er bod rhan fawr o Gymru yn dir sych ar y pryd, roedd y de dan y môr yn ystod y Jwrasig. Wrth gymryd snorcel mewn i'r dŵr cynnes byddwch yn gweld llu o greaduriaid anadnybyddadwy yn nofio neu'n crwydro oddi tanoch. Yn gyffredin yn yr oes hon oedd yr amonitau, a edrychai fel sgwid yn ymwthio allan o gregyn crwn troellog. Yn ysglyfaethu ar folysgiaid a physgod bach, tyfai rhai mor fawr ag olwyn beic! Efallai byddwch hefyd yn gweld ichthyosariaid yn gwibio ymysg heigiau mawr o bysgod cyfagos. Roedd yr ichthyosoriad yn edrych yn debyg i ddolffiniaid heddi - sy'n anhygoel wrth gofio taw ymlusgiaid ac nid mamaliaid oedd yr anifeiliaid hyn. Roedd ganddynt lygaid eithriadol o fawr a cheg llawn dannedd miniog i rwygo eu bwyd. Byddai'r mwyafrif tua dau fetr o hyd, ond yn bresennol hefyd roedd rhywogaeth a dyfodd i fod yn bymtheg metr - cryn dipyn yn fwy na'n dolffiniaid mwyaf heddi.

Ond ymysg yr anifeiliaid rhyfedd ac estron, byddwch hefyd yn gweld rhywogaethau gweddol gyfarwydd. Yn debyg i heddi roedd mathau o gregyn sgalop (o'r genws *Chlamys*). Yn gorwedd ar waelod y môr, ac yn gorchuddio'r cerrig mawr roedd molysgiaid o'r genws *Liostrea* a *Gryphaea* - a edrychai'n debyg i wystrys heddi. Roedd hefyd folysg o'r genws *Gryphaea*. Hefyd yn bresennol roedd siarcod, yn ogystal â physgod â nodweddion tebyg i'r rhai sy'n parhau i lenwi ein moroedd hyd heddi.

Nid yw'n bosib i mi eich cymryd yn ôl mewn amser, ond y newyddion da yw y gallwch weld yr anifeiliaid uchod fel ffosiliau yn y cerrig ger Penarth. Wrth wybod mwy am gyfnod gwreiddiol y rhywogaethau hyn, mae modd eu gwerthfawrogi ar lefel hollol uwch. Mae ffosiliau yn gapsiwl amser o fyd gwahanol, ac yn hybu meddyliau o chwilfrydedd a rhyfeddod. Wrth gerdded ar hyd y traeth byddwch yn sicr o weld cregynnau *Liostrea* a *Chlamys*, ac efallai gregyn amonitau yn eu mysg. Gyda lwc, bydd yn bosib ffeindio fertebra ichthyosaur hefyd. Os ydych yn gwisgo'n addas, yn cadw'n bell o ymyl y clogwyni bregus, ac yn ymwybodol o amserlen y llanw, rydw i'n sicr y byddwch yn cael amser bendigedig yn chwilio'r cerrig am y trysorau naturiol maent yn eu cynnwys.

# Merched y Wawr
# Bro Radur

Cawsom noson ddifyr iawn yng nghwmni Haf Weighton yr artist tecstilau ddechrau mis Chwefror. Bu`n sôn am y cyfnod dreuliodd hi yn teithio yn Asia ac Awstralia cyn gwneud ei chartref yn Llundain, lle bu`n athrawes Celf yn Highgate. Bu`n byw mewn ardal brysur a lliwgar ac mae`n siwr bod hyn wedi dylanwadu ar ei gwaith. Mae ganddi ddiddordeb mewn pensaernïaeth ac mae hi`n defnyddio paent, print a phwythau i greu darluniau cywrain o adeiladau.

Ers iddi ddychwelyd i Gymru gyda`i gŵr a`i dau blentyn, mae hi wedi bod yn hynod o brysur. Bu`n rhan o brosiect Ysgolion Creadigol, a bu`n arwain prosiect ar Hunaniaeth yn Ysgol Gynradd Pencoed. Cafodd gwaith y plant ei arddangos yn Oriel Saatchi, Llundain, un o orielau mwyaf adnabyddus y byd. Bu hefyd yn creu darnau ar thema Oes y Celtiaid gyda phlant Ysgol y Berllan Deg, a bu`n cynnal gweithdy gydag oedolion yn ymateb i waith Rembrandt ar gais yr Amgueddfa Genedlaethol. Yn ystod y cyfnod clo bu`n cynnal prosiectau rhithiol gydag ysgolion, yn cynnwys comisiwn Ysgol y Fro, Y Barri.

Mae Haf ei hun wedi creu darnau comisiwn cain a lliwgar, fel y darlun o Ysbyty Rookwood ar achlysur dathlu canmlwyddiant yr adeilad, a hefyd darn yn cofnodi hanes ysbyty a thref Y Barri. Bu`n arddangos ei gwaith yn Crefft yn y Bae a hefyd ym Mhenarth, ble mae hi`n byw.

Edrychwn ymlaen yn fawr at gael y cyfle i weld gwaith Haf, artist hynod o ddawnus a chreadigol, pan fydd yr orielau yn ail-agor.



# Merched y Wawr
# Y Felin

Gwahoddwyd Mati Roberts atom i siarad am MATICO sef ei busnes creu a gwerthu lamplenni a gemwaith lliwgar yng Nghaerdydd.

Nyrs yw Mati. Cafodd ei chodi a'i magu yn yr Eglwys Newydd a bu'n ddisgybl yn ysgolion Melin Gruffydd a Glantâf. Dechreuodd ar ei gyrfa nyrsio yn Llundain ac ar ôl rhai blynyddoedd cymerodd y cyfle i estyn ei phrofiad nyrsio yn Ghana.

Yno, syrthiodd mewn cariad â'r defnyddiau traddodiadol lliwgar, ac aeth ati i ddysgu am ddiwydiant tecstiliau Ghana. Stori drist. Tra bod siopau elusen Prydain ac Ewrop yn gwerthu eu gwastraff i wledydd tlawd fel Ghana, mae'n rhatach i'r bobl leol brynu'r dillad ail-law hyn yn hytrach na phrynu eu defnyddiau hardd eu hunain, ac mae diwydiant tecstiliau Ghana wedi ei andwyo'n echrydus ac mae diweithdra yn taro llawer.

Wedi dychwelyd i Lundain, ysgogodd y sefyllfa Mati i brynu mwy o'r defnyddiau heb wybod yn iawn beth i'w wneud â nhw.

Yna, gofynnodd ffrind iddi wneud lamplen liwgar iddi, a gwelodd Mati ei chyfle. Dysgodd ar-lein sut i wneud lamplenni a gemwaith, a dyna ddechrau busnes MATICO.

Yn Ghana cyfarfu ag adeiladwr lleol oedd yn awyddus i godi ysgol ar gyfer plant o deuluoedd tlawd. Erbyn hyn roedd MATICO yn datblygu'n llwyddiannus ac fe benderfynodd Mati gefnogi'r prosiect.

Erbyn hyn mae'r ysgol wedi tyfu, a daw cyfraniadau ariannol o'r gymuned, oddi wrth Kofi yr adeiladwr ac aiff arian MATICO i dalu athrawon, prynu adnoddau ac ati, er mwyn i'r ysgol lwyddo.

Mae gweledigaeth Mati, ei brwdfrydedd a'i hymrwymiad i'r prosiect yn anhygoel.

Mae Mati'n dal i nyrsio'n rhan amser, yn dal i redeg ei busnes ac mae hi'n dal i godi arian i'r prosiect yn Ghana.

Os am gefnogi prosiect Mati gallwch wneud hynny trwy'r gangen:
eiry.davies@hotmail.co.uk - 07855666242
neu http;//www.crowdfunder.co.uk/help-us-to-finish-buildingclassrooms-in ghana
www.maticostudio.com maticostudio@gmail.com



## Mis Mawrth: gyda Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg

Bydd Nerys Howell yn dychwelyd ym mis Mawrth gyda dwy sesiwn ar gyfer y gwanwyn. Ar ddydd Gŵyl Dewi, bydd hi'n rhoi gwedd ffres i ryseitiau traddodiadol ac ar ddiwedd y mis cawn lu o syniadau wrth baratoi at y Pasg (30 Mawrth).

Caiff y plant ddathlu Gŵyl Dewi gyda sesiwn canu i'r rhai bach yng nghwmni Do Re Mi (1 Mawrth), ac yna i'r teulu cyfan ceir cwis newydd dwyieithog (5 Mawrth).

Mae Sgwrs y Mis (nos Iau, 25 Mawrth) yng nghwmni'r Dr Hefin Jones fydd yn trafod pwnc sy'n agos at ei galon, pryfed!

Ceir cwrs ar hanes Cymru bob nos Lun yng nghwmni'r Dr Meilyr Powel. Gan ddechrau yng nghyfnod y Rhufeiniaid (8 Mawrth), awn ar daith drwy'r canrifoedd mewn cyfres o chwe sesiwn sy'n rhad ac am ddim.

Bydd nifer o sesiynau unigol ym mis Mawrth gan gynnwys Cwrdd â'r Crefftwr, gyda'r ceramegydd Eluned Glyn (prynhawn Iau, 4 Mawrth). Wrth i dîm rygbi Cymru chwarae yn Rhufain, bydd Siân Roberts yn trafod bwyd a bywyd yn yr Eidal nos Wener, 12 Mawrth ac mewn sgwrs ar Ddiwrnod Ailgylchu'r Byd (Dydd Iau, 18 Mawrth), bydd Eleri Morgan yn holi Alwen Marshall, o siop Iechyd Da @CF14 yn yr Eglwys Newydd, a Sara Lewis, o Ailgylchu Caerffili, sut i leihau gwastraff, siopa'n synhwyrol ac ailgylchu mwy. A beth am ymuno â Wendy o 'Blodau Blodwen' i gael syniadau am drefnu blodau'r gwanwyn mewn sesiwn fore Iau, 25 Mawrth?

Bydd rhai o hoelion wyth ein hamserlen wythnosol yn parhau gan gynnwys Cynganeddu, Ukulele i Ddechreuwyr, Y Gerddorfa Ukulele, Pilates, y Boreau Coffi i ddysgwyr a'r Clwb Garddio misol. Bydd y Clwb Cerdd (bob nos Fawrth) a'r gwersi Sbaeneg (bob nos Lun) hefyd yn parhau drwy gydol y mis.

Cofiwch hefyd am ein harlwy i blant a phobl ifainc. Bydd y clybiau dawns a drama'n parhau bob bore Sadwrn, a bydd aelodau iau'r teulu wrth eu boddau gyda'n Clwb Celf a Chrefft newydd sbon. O sesiynau coginio i ioga, Bwrlwm ac arwyddo mae digon i gadw pawb yn y teulu yn brysur!

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefannau – mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru - a'r cyfryngau cymdeithasol. Neu cysylltwch â ni ar: post@mentercaerdydd.cymru / 2068 9888.

## GWIRFODDOLI YN Y GYMRAEG

Mae Comisiynydd y Gymraeg mewn partneriaeth â CGGC (Cyngor Gofal Gwirfoddol Cymru) wedi cyflogi dwy intern newydd, Catrin Lois Jones a Marged Elin Roberts, i gefnogi mudiadau yng Nghymru i greu a hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli'n Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod clo, gwelsom bwysigrwydd gwirfoddoli yn ein cymunedau. Mae Comisiynydd y Gymraeg a CGGC wedi gweld gwir angen hybu rhagor o siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i wirfoddoli.

Bwriad y cynllun yw rhoi cyfle i bobl ifanc dderbyn profiad yn y maes gwaith. Mae Catrin yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Bangor yn astudio'r Gymraeg, a Marged wedi graddio llynedd o Brifysgol Aberystwyth mewn Cymraeg a Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Bydd y ddwy yn gweithio'n rhan amser dros gyfnod o dri mis i Gomisiynydd y Gymraeg a'r CGGC.

Ymysg y cyfrifoldebau, bydd Catrin a Marged yn darparu sesiwn ar-lein ar werth gwirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg i bobl sydd â diddordeb, hyrwyddo straeon ynglŷn â gwirfoddoli'n Gymraeg, a rhannu cynghorion.



*Marged*

Mae Marged sy'n byw yng Nghaerdydd, ond yn wreiddiol o Gaernarfon yn gweld yr her o geisio hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn gyffrous:

Meddai Awel Trefor o Dîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg:

"Mae gan Catrin a Marged lawer i'w gynnig, a syniadau ffres. Mae'n dda dysgu beth a'u hysgogodd nhw i wirfoddoli a sut gallwn ddefnyddio'r profiadau hynny i ysbrydoli eraill."

Meddai Felicitie Walls, Rheolwr Gwirfoddoli Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru: "Mae Marged a Catrin wedi dod at y swydd yn llawn bwrlwm a brwdfrydedd am y Gymraeg a gwirfoddoli, ac eisoes wedi adeiladu perthynas wych â chydweithwyr yn y sector gwirfoddol gan wella a chynyddu'r cyfleoedd i wirfoddolwyr sydd am ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r cyfleoedd ar gael ar wefan Gwirfoddoli Cymru."

Os oes gennych chi ddiddordeb i fod yn wirfoddolwr, neu os oes gennych ddiddordeb yn ein digwyddiad ar-lein i drafod gwirfoddoli yn y Gymraeg cysylltwch â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg:
post@cyg-wlc.cymru neu
ffôn 0345 6033 221

# NEGES O SELAND NEWYDD

## Lowri Haf Cooke yn holi Owen Jones

*Mae Owen Jones, sy'n 40 oed ac yn wreiddiol o'r Eglwys Newydd, yn wyddonydd ym Mhrifysgol Otago, Dunedin. Mae'n byw yno gyda'i wraig Simonette.*

**Beth yw'r sefyllfa yn Dunedin a Seland Newydd?**

Ar hyn o bryd mae Seland Newydd mewn sefyllfa gwell na bron unrhyw le fedra i feddwl amdano. Ni yw'r rhai ffodus. Wrth gwrs, fedrwn ni ddim dweud bod popeth yn berffaith iawn (mae dal un neu ddau achos yn Auckland), ond mae bywyd yn teimlo'n arferol i'r mwyafrif. Mae pawb yma'n ymwybodol y gallai pethau fod wedi bod gymaint gwaeth. Y peryg nawr yw bod pobl yn dechrau teimlo'n *rhy* arferol ac yn peidio cymryd gofal fel oeddynt chwe mis yn ôl. Dydyn ni ddim allan o'r coed eto.....





**Sut ddechreuodd pethau newid i chi a'r teulu ar ddechrau'r argyfwng?**

Digwyddodd pethau'n gyflym iawn yma. Cyhoeddwyd yr achos cyntaf o COVID-19 yn Seland Newydd ar 28ain o Chwefror, 2020. Ar 19eg o Fawrth caewyd y ffin i bawb ond am ddinasyddion Seland Newydd, ac erbyn 25ain o Fawrth roedd rhaid i holl bobol y wlad aros adref. Penderfyniad y llywodraeth oedd i fynd yn "galed ac yn gynnar". Wrth edrych yn ôl mae'n hawdd gweld llwyddiant y strategaeth yma, a hyd yn oed ar y pryd roedd (bron) pawb yn cytuno taw dyma oedd yr unig ddewis synhwyrol. Ond roedd e'n dal yn sioc.

Dros nos aeth sawl busnes i'r wal, ac fe gollodd miloedd eu swyddi. Roedd cyfran fawr o economi Seland Newydd yn seiliedig ar dwristiaeth rhyngwladol. Nid yw bellach. I fi'n bersonol, golygodd y cyfyngiadau bod rhaid rhoi'r gorau i fy ngwaith ymchwil am sbel. Doedd dim modd symud y labordy i'r sied tu ôl i'r tŷ (basai'r pwyllgor moeseg wrth eu boddau...) felly doedd dim dewis. Er, mae gan waith academaidd ffordd o ddilyn pobl adref felly roedd digon i nghadw'n brysur ta beth. Yn y pen draw dim ond am chwech wythnos y parhaodd y cyfyngiadau llymaf. Pris bach i'w dalu.

**Beth yw patrwm arferol eich diwrnod ar hyn o bryd?**

Dwi'n teimlo'n ofnadwy'n dweud hyn wrth feddwl am y sefyllfa dramor, ond mae fy nyddiau eisioes fel oeddynt cyn COVID-19. Bu'r gwaith yn wahanol am sbel, hyd yn oed ar ôl llacio'r cyfyngiadau ymgynnull / teitho ac yn y blaen, gan i'r Brifysgol lle dwi'n gweithio benderfynu y dylai myfyrwyr barhau i astudio gartref yn hytrach na dod i'r campws, rhag ofn bod yr haint yn dal yn ein plith neu'n ail-gychwyn. O ran pethau bob-dydd, dim ond Auckland sydd wedi gweld unrhyw gyfyngiadau yn ddiweddar. Mae gweddill y wlad wedi bod yn rhydd i ymgynnull, bwyta, siopa ac ati ble bynnag sy'n plesio. Trwy faes awyr Auckland mae'r mwyafrif o bobl yn dychwelyd i Seland Newydd (ac mae pobl wedi bod yn dychwelyd yn eu miloedd). O dro i dro ceir achos o'r feirws yn y gymuned yno - fel arfer yn ymwneud â rhywun sy'n gweithio mewn swydd sy'n gysylltiedig â'r maes awyr neu'r ffin. Fel arfer mae hyn yn golygu bod cyfyngiadau'n cael eu gosod ar bobl Auckland ond nid gweddill y wlad.

**Beth yw eich barn yn gyffredinol ar hyn o bryd?**

Dechreuwyd brechu yma ganol mis Chwefror. I'r mwyafrif mae hyn yn gam positif iawn, ond fedra i ddim gweld achos i ddathlu. Wrth gwrs mae'n hanfodol i frechu'n eang er mwyn sicrhau iechyd y cyhoedd, ond oes wir angen i Seland Newydd dderbyn miliynau o ddognau o'r brechlyn mor fuan, tra bod gwledydd eraill mewn sefyllfa gymaint gwaeth? Nid fan hyn y mae'r argyfwng. Baswn i'n ddigon hapus i aros, os y golygai hynny bod y brechlyn yn cael ei ddarparu mewn modd teg sy'n blaenoriaethu gwledydd ar sail angen neu sefyllfa economaidd.

**Beth yw maes eich arbenigedd ym Mhrifysgol Otago ac i ba raddau mae'r argyfwng rhyngwladol wedi effeithio ar faes eich ymchwil?**

Niwrowyddonydd ydw i. Fy maes penodol yw'r cysylltiadau (synapsau) rhwng celloedd yr ymennydd. Trwy synapsau mae celloedd nerfol yn trosglwyddo negeseuon trydanol, a gall un gell gyslltu â dros 10,000 o gelloedd eraill. Mae'r synaps yn strwythur hyblyg iawn sy'n gallu cryfhau neu gwanhau; prosesau sy'n angenrheidiol ar gyfer cofio ac anghofio. Mae'n dilyn felly bod afiechydon sy'n effeithio'r synaps yn siwr o gael effaith ofnadwy ar brosesau'r cof, fel y gwelwn gyda chlefyd Alzheimer's. Ar hyn o bryd rwy'n edrych ar brotein sy'n cronni yng nghlefyd Alzheimer's ac sy'n gyfrifol am golli'r cysylltiadau rhwng y celloedd. Mae fy mhrosiect yn rhan o gydweithrediad rhyngwladol, ac mae'r pandemig wedi arafu pethau'n sylweddol. Mae fy nghydweithwyr yn Wuhan, o bobman, a welodd, wrth gwrs, gyfyngiadau llym cyn unrhyw fan arall yn y byd. Yna, wrth i bethau ymlacio yn Wuhan a dychwelodd pawb i'r gwaith, dechreuodd y cyfyngiadau yma yn Seland Newydd. Perffaith. Ond fedra i ddim cwyno. Rwy'n nabod sawl ymchwilydd sydd wedi gorfod gadael academia yn sgil y pandemig.

**Beth ydych chi'n ei golli fwyaf? Neu a fedrwch chi ddweud bod rhywbeth 'da' wedi dod o hyn? Beth ydych chi wedi dysgu dros y flwyddyn diwethaf sy'n bwysig?**

Teithio yw'r peth mwyaf. Mae'n anodd dychwelyd i Gymru ta beth, ond bron yn amhosib nawr wrth gwrs, a phwy a wyr pryd fydd pethau'n gwella? Mae gen i nith dwi dal heb gwrdd â hi, ac roeddwn i a fy ngwraig i fod i gwrdd â fy rhieni yn Sri Lanka 'nôl ym mis Ebrill ar gyfer fy mhenblwydd yn 40 mlwydd oed. Dim siawns. 2022 efallai? Cawn weled.

Er gwaetha popeth, mae yna un neu ddau beth da sydd wedi digwydd yn sgil y pandemig. O bosib bydd diddordeb gan ddarllenwyr Y Dinesydd i glywed bod nifer fawr o bobl yma yn Seland Newydd wedi dechrau dysgu'r iaith Māori tra iddynt orfod aros adref o'r gwaith. Mae miloedd o bobl wedi ymaelodi â grwpiau Facebook sy'n hybu'r iaith, neu wedi dechrau defnyddio adnoddau eraill ar-lein. Dwi'n deall bod rhywbeth tebyg wedi digwydd gyda'r Gymraeg hefyd. Tino pai! (Da iawn!)

**Oes gyda chi neges i rannu gyda darllenwyr *Y Dinesydd* - unrhyw gyngor penodol?**

Rwy'n gweld bod y niferoedd wedi disgyn yn sylweddol yng Nghymru dros yr wythnosau caled diwethaf, ac mae dros chwarter y wlad nawr wedi'u brechu. Mae hynny'n swm sylweddol, ac mae'n rhoi ffydd bod dyddiau gwell ar y gorwel. Hir yw pob aros, ond efallai nid llawer hirach nawr. Yn y cyfamser golchi dwylo, gwisgo masg, cadw pellter a bod yn amyneddgar sydd angen. "Kia kaha" (byddwch gryf) yw'r neges sy'n gyson yn cael ei ailadrodd yma, ac mae'n neges gyfanfydol.

## Cynllun i Ddiogelu Enwau Cymraeg ar Dai

Hoffwn dynnu sylw eich darllenwyr at gynllun newydd o'r enw ***DIOGELWN*** y mae Cymdeithas yr Iaith wedi'i lansio.

Bwriad y cynllun yw diogelu enwau Cymraeg ar dai er mwyn cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r syniad sydd wrth wraidd y cynllun yn un syml iawn, ac yn berthnasol i bawb sy'n byw yng Nghymru ac sy'n berchen ar dŷ ag enw Cymraeg.

- **Os ydych ar fin gwerthu eich tŷ:** gallwch ofyn i'ch cyfreithiwr gynnwys cymal penodol yn y cytundeb gwerthu er mwyn atal prynwyr a'u holynwyr mewn teitl rhag newid yr enw yn y dyfodol.
- **Os nad ydych yn bwriadu gwerthu'ch tŷ:** gallwch ddiogelu'r enw trwy lofnodi a chofrestru cytundeb (gyda chymorth eich cyfreithiwr) er mwyn atal prynwyr neu gymyndderbynwyr o dan eich ewyllys chi a'u holynwyr mewn teitl rhag newid yr enw yn y dyfodol.

Mae'r dogfennau perthnasol (sydd wedi'u paratoi gan ein cyfreithwyr) ar gael ar wefan y Gymdeithas i'w lawrlwytho. Ewch i cymdeithas.cymru/diogelwn (neu gallwch ffonio 01970-624501 a gallwn anfon y dogfennau atoch trwy'r post).

## Cymrodorion Caerdydd

Cafwyd 'mynychwyr' o bob rhan o Gymru a thu hwnt i gyfarfod mis Chwefror o Gymrodorion Caerdydd a gynhaliwyd ar Zoom. Y siaradwr oedd Yr Athro Densil Morgan a theitl ei ddarlith oedd 'Y Gair a'r Genedl: Dathlu Canmlwyddiant R. Tudur Jones (1921 – 1998)'.

Cafodd Dr Tudur ei eni yn Tŷ Gwyn, Llanystumdwy, tŷ a ddaeth yn gartref maes o law i wrthrych ein cyfarfod mis nesaf (12 Mawrth), sef y dramodydd Wil Sam. Yn gynnar yn ei fywyd symudodd y teulu i'r Rhyl. Cyfaill mawr iddo y dyddiau hynny oedd Emyr Humphreys. Aeth i'r Brifysgol ym Mangor ac oddi yno i Rydychen (Colegau Mansfield a St Catherine) ac yna i Brifysgol Strasbourg.

Graddiodd yn y dosbarth cyntaf mewn athroniaeth ac yna mewn diwinyddiaeth, ond ym maes hanes eglwysig y gwnaeth ei gyfraniad academaidd mwyaf nodedig, gan ennill bri rhyngwladol. Fel y dengys ei gyhoeddiadau tra niferus, Piwritaniaeth yr ail ganrif ar bymtheg oedd ei brif ddiddordeb, ond yr oedd ystod ei ysgolheictod yn ehangach o lawer na hynny. O ran ei ddiwinyddiaeth, yr oedd yn uniongred Galfinaidd, a nododd yr Athro J.E. Daniel a'r Parchedig Glyn Thomas fel dylanwadau trwm arno. Bu'n Brifathro Coleg Bala-Bangor o 1965 tan 1988. Ar ben ei lafur academaidd enfawr, yr oedd yn pregethu yn gyson ar y Sul, ac yn awdur llu mawr o ysgrifau gydag apêl gyffredinol iddynt.



Cenedlaetholwr oedd Dr Tudur, a safodd fel ymgeisydd seneddol dros Blaid Cymru ddwy waith ar Ynys Môn yn etholiadau 1959 a 1964. Gwasanaethodd hefyd fel Is-Lywydd y Blaid o 1957 tan 1962. Bu ei gyfraniad i fyd ac eglwys fel ei gilydd yn orchestol.

Diolchodd y Llywydd, Alwyn Evans, i'r darlithydd am gyflwyniad oedd yn ddysgedig ac yn ddifyr iawn, ac i Dyfrig Lloyd am drefnu'r cyflwyniad ar Zoom.

***Llun o'r Dr R. Tudur Jones***

# Colofn Hannah



*"Fe dda'th sawl gair Ffrangeg miwn i'n hiaith ni wedi'r Rhyfel Byd Cynta'."*

Helo 'to.

Wel dyma ni yng ngwarter cynta' 2021, a mwy nawr o feddygyniaethe Mangu.

Ddechriws y flwyddyn 'ma i fi â'r ddannodd!!

W i'n cofio Mam ym tynnu'n nannedd cynta' i yn un ac yn un.

Cofio wetyn Dacu yn clwmi cortyn i'w ddant, clwmi'r pen arall i fwlyn y drws, sefyll o bellter, a Mam yn slamo'r drws, BANG! y dant yn dod mas!!

O'n i'n ca'l lot o'r ddannodd yn blentyn. Un bore o'dd e'n ddrwg iawn, Mangu'n gweud rwpeth rhyfedd, "Nace'r ddannodd sy' arni, "Tic Dolory" yw hwnna", a dyma dwymo *Liquid Paraffin*, ei roi e ar y ngwyneb a chlwmi hoson Dad o'i gwmpas, a *safety pin* i ddala fe ar dop y pen, real *ffasion statement*!! Rwto Pupur Cayenne wetyn at y ddannodd.

Planhigyn sy'n tyfu wrth ymyl y ffordd yw *Sneezewort*, ne Llysiau'r Ddannodd, gallwch falu'r gwriddyn a'i roi ar y dant poenus - dwymach na phubur!!! Nawr y gair 'na - o'n i'n clywed hwnna fel gair Cymra'g :- Tic Dolory, OND, gair Ffrangeg yw e' sef *Tic Doloreux*, neuralgia ar ochor y wyneb, - y deintydd yn hen gyfarw'dd â'r gair, ond Mangu yn ei weud e' yn 1942!!

Nawr te, fe dda'th sawl gair Ffrangeg miwn i'n hiaith ni wedi'r Rhyfel Byd Cynta', yn ca'l eu cario nôl o Fflandrys a llefydd tepyg 'da'r swjwrs. Dyma enghreifftie:-

Toodloo—o'r Ffrangeg "*Tout a l'heure*" - wela i ti cyn bo hir.

Sanfferian - "*C'en faire rien*"—Y cyfieithad llythrennol yw *It makes nothing* - 'Sdim ots.

Eto, ar nos Wener, o'n i'n mynd 'da nhad i siop Dacu i hôl y *goods* - y siopa.

O'dd Dacu'n byw mewn tŷ mawr, hen dafarn Y Morning Star, ne'r "Mornin" ar lafar. Dou frawd nhad a whâr yn byw 'da fe ar un ochor y tŷ, a whâr arall â'i plant yn byw yr ochor arall, yn y "West Wing"!!!!! Tra o'dd nhad 'da Dacu, o'n i'n mynd i'r ochor arall at y'n anti, dwy gnithder a chender, a chyn dod o'dd 'no, o'n i'n ca'l swper 'da nhw. Ar ôl swper, o'dd hi'n amser gwely i'r plant, a fydde'n anti yn gweud, "Dewch nawr, "*aller à couche*"!! Ffrangeg ynghannol y Gymra'g - a'i ystyr o'dd—"Cerwch i gwtcho, ne' cerwch i'r gwely". Yr un gair sy' yn y gân yn un o ddramau Shakespere—"*There I couch where owls do cry*".

Cyn swper, o'n nhw'ch tri yn ca'l bath yn y shincen hir o fla'n tân, bath nos Wener, a finne, fel unig blentyn yn ysu am fynd miwn 'da nhw!!!!!

Un prynhawn rhai blynydde nôl, o'n i yn Sain Ffagan, ac fe weles boster o 1850, ar y wal, yn hysbysebu meddygyniaethe, a na le o'dd y geire ma:-

"*Instant cure for toothache and face ache, (Tic Doloreux)*", chi'n clywed y gair dolur yndo fe. Poster rhyw wraig o Aberdar o'dd e, yn gweud:- Medical *Galvanisation*, Mrs. R Williams, Aberdare, *Electrician and Herbalist*!!!!

Pan o'n i'n helpu yn siop Dacu, w i'n cofio gweld peil o gylchgronne *Woman's Own* ar y stôl. Yng nghefen bob un o'dd y sipsi 'ma, Leon Petolengro, yn darllen y sêr, hancisher smotiog am ei ben, a chlustdlyse mawr crwn yn ei gluste. O'dd e hefyd yn neud past dannedd mas o ddail Dinad, ai werthu fe mewn marchnadoedd. O'dd e yn y farchnad un diwrnod, ac yn gweud pwy mor wyn o'dd y past 'ma'n 'neud y'ch dannedd chi, ac er mwyn profi hyn, galw'r bachgen bach 'ma ato (ei fab) i ddangos ei ddannedd gwyn, a gweud wrth y plentyn "So ni 'di cwrdd erio'd o'r bla'n odi ni?", a'r bachgen yn ateb "Naddo Dad"!!!!!!

Pan ddechriws ITV, ar yr ail-ar-hugen o Fedi 1955, yr hysbyseb cynta' a ddangoswyd o'dd:- *Gibbs S R Toothpaste, the tingling fresh toothpaste, fresh as ice*. Dangoswyd e' mewn blocyn o iâ, ond nid iâ iawn, achos pyrt hynny, o'dd goleuate stiwdios yn ll'wer rhy dwym, fydde fe 'di toddi glatch!!!

Y son cynta am ddannedd gosod yw yn y seithfed ganrif CC wedi'u neud o ddannedd anifeiliaid a phobol!! Diflannu wetyn nes yr ail ganrif-ar-bymtheg. A meddylwch am hyn, hanner can mil o fechgyn ifenc, swjwrs, yn ca'l eu diwedd ym Mrwydr Waterloo, a defnyddiwyd y dannedd ifanc at ddannedd gosod!!!!!!

Defnyddiwyd ifori a phorslen at 'neud dannedd; plastic yw'r defnydd heddi.

Mae'r mish diwethaf yn cofio Abertawe'n Fflam, tri diwrnod o'r *blitz* ar y ddinas, bapa o'n i, ond w i'n rhyw gofio ca'l *siren suit*, (*onesy* heddi) amdenoi i fynd mas i'r *air raid shelter*. Echnos, ar *Heno*, ddangoson nhw lunie o'r galanastra, ac yn eu mysg, yr hen Woolworth yn High St., sgapws hwnnw'r bomie, ag o'dd ei weld e 'to yn dod ag atgofion nôl. Yn ystod gwylie'r Coleg, o'n i'n gwitho yno, ar y cownter *Toothpaste*!! Bob hyn a hyn, ar Ddydd Gwener, fydde dyn yn dod at y cownter am glonc, ond dod i dwcyd tiwb o'r past o'dd e, a o'dd hen gopi o'r *Western Mail* 'da fe 'fyd, wetyn, ar ôl twcid y tiwb, o'dd e'n cered bant gan feddwl bod y tiwb tu fiwn i'r WM, OND tu fas o'dd e - wetes i ddim!!! Wetyn, fydde'r Parchg Hugh Matthews (sy' yn drist iawn wedi'n gatel ni nawr) yn dod miwn pan o'dd e'n stiwdent, a gatre ar wylie o Fangor, a'i eirie fe o'dd "Tin o Euthymol plis"; nawr Euthymol o'dd enw'r past, ond fydde Huw yn mynnu ei ynganu yn Gymra'g, a'r pwyslais ar y sillaf ola ond un,- EwTHY mol!!.

Wel, na ddicon am ddannedd, - cerwch i rindo ar bach o gerdd dant!!!!!!

Newid cywair nawr.

W i'n cofio Mangu yn neud tê isop, ne' 'Gras Duw', i roi enw arall iddo fe, planhigyn itha tepyg i lafant, ond ma 'na ddou, a'r nall yn wenwynig. O'dd hi'n mynd a fe miwn jwg at rhywun yn y'n ranc ni o dai o'dd â'r clefyd melyn, mae e fod i dynnu'r melyndra mas o'r cro'n, yn

dda hefyd i ga'l gwared o glaish. Ma son amdeno fe yn y BIBL (os wetws Mangu) Salm 51, 'Glanha fi ag isop, a byddaf wynnach na'r eira' - hen feddygyniaeth!!!! Mae'n dda i blannu isop mewn gerddi i ddenu'r Pili Pala, stopo nhw i fynd at y cabetch i neud twlle polo mint yn hwnnw!!!! - mae e hefyd yn puro'r tir a chatw heintie bant. Ar un ateg, o nhw'n gorfoti gwahangleifion i olchi 'u hunen ag isop cyn c'mysgu 'da phobol. Cofio ffrind i fi wedi cered miwn i bostyn lamp a cha'l claish ar ei llicad - Mangu'n berwi isop, ei roi e mwn bag pys "Leo", a'i rhoi e ar y claish i dynnu'r duwch mas.

Son am y clefyd melyn, o'dd Mam yn gyfarw'dd a gweld pobol a gwawr felen arny' nhw, - menwod yn gwitho 'n y *Munitions Factories*, yn llanw *shells* 'da TNT, gwaith peryglus iawn. Ar ôl roi y pwdwr miwn o'n nhw'n roi'r *detonator* ar y top, a phwyso fe lawr, os o chi'n pwyso'n rhy galed o'dd e'n ffrwydro!! O'dd llwer o ddamweinie wedi dicwdd. O'n nhw'n ffili gwishgo dillad shitan o achos *static*, a dim hyd yn oed bra, o'dd y clasp metal yn achosi ffricshyn. O'dd y menwod 'ma yn dod mas o'r ffatri yn felyn, gwallt, cro'n a dannedd, ag o'dd ll'wer i fenyw o'dd yn erfyn wedi roi genediceth i fabi melyn!!

Gas y menwod 'ma enw: Y Caneris, O'dd dywetiad 'da Mam, "Mae hi mor felyn â ali oca". Am flynydde nath e ddim y nharo i beth o'dd hwnna, yna, torrodd y wawr, wedi Cymrygeiddo y gair *Yellow Ochre* o'n nhw!!!!!

Wel, na ddicon am y mish 'ma 'to, catwch yn sâff, w i'n cretu bod gole 'nawr ar ddiwedd y twnnel, mwy m'wn mish,

Hwyl.

# Pigiad

Yn ystod mis Ionawr gwnaeth y syniad fy nharo bod y gair 'pigiad' yn llawer gwell na'r gair Saesneg '*jab*'. Mae '*jab*' yn awgrymu gweithred sydyn a diofal tra bod 'pigiad' yn awgrymu rhywbeth mwy gofalus a thyner. Dydi o ddim yn help bod '*Jab*' yn odli efo '*stab*'.

Cefais lythyr i ddweud mod i am gael y pigiad yn ystod yr wythnosau canlynol ac i ddisgwyl y llythyr o gadarnhâd.

Aeth fy meddwl yn ôl i fy nyddiau ysgol a'r diwrnod pan oedd y nyrs yn galw i roi injecshyn i ni. Doedd dim sensitifrwydd am y peth, roedd holl blant y dosbarth yn sefyll mewn rhes ac yn gweld pob plentyn o'u blaenau yn gwingo mewn poen. Os oeddech chi ar ddiwedd y rhes roeddech chi wedi codi ofn yn ofnadwy erbyn eich tro chi.

Chi bobl ifanc! Does gennych chi ddim syniad o faint oedden ni'n gorfod dioddef!

Mae pethau'n llawer gwell erbyn hyn wrth gwrs ac roeddwn i'n edrych ymlaen at gael y peth drosodd. Am chwech o'r gloch ar ddiwrnod olaf mis Ionawr eisteddwn mewn adeilad gafodd ei addasu ar gyfer marathonau o bigiadau. Chwarae teg i'r Gwasanaeth Iechyd roedd y ffordd o weithio yn reit slic. Eisteddem i gyd ar gadeiriau ar ddwy ochr i ystafell hirsgwar a fi oedd y cyntaf yn y rhes. Daeth y nyrs ataf efo'i throli, tynnu clipfwrdd allan a chadarnhau fy enw a'm cyfeiriad ac ati a gofyn cwestiynau am gyflwr fy iechyd. Dw i'n falch o ddweud fy mod i wedi ymateb pob un yn gywir ac fel gwobr am hynny ces i'r pigiad. Wedyn mi nes i siomi fy hun, ia, mi nes i grio! Ond roeddwn i'n teimlo'n llawer gwell ar ôl i'r nyrs roi cwtsh i mi!

Hen dric dw i'n gwybod, ond mae'n gweithio pob tro!

*Rob Evans*

*Annwyl Olygydd*

Mae'n ymddangos bod Ymddiriedolwyr Tŷ'r Cymry (o fwyafrif o 2/3) yn bwriadu gwerthu'r Tŷ yn y dyfodol agos a dosbarthu'r elw rhwng mudiadau o'u dewis. Rhaid cydnabod eu hymdrechion i gynnal y ganolfan ar hyd y blynyddoedd ond rwy'n poeni am allu dau unigolyn i wneud penderfyniad mor dyngedfennol ynglŷn ag adeilad sy'n eiddo, mewn gwirionedd, i'r gymuned – a hynny heb fod yn fodlon ystyried cynigion gwahanol.

Mae grŵp o bobl broffesiynol a chefnogol i'r achos wedi cynnig cynllun a allai olygu dyfodol llewyrchus i'r Tŷ. Mae'r cynllun yn cynnwys addasu'r adeilad (gan nodi'r gost a darpar ffynonellau grantiau), newid y defnydd ohono (gyda rhestr o fudiadau fel darpar bartneriaid a chwsmeriaid) ac, yn allweddol, rhestr o bobl addas (gyda CV i ddangos eu cymhwyster) sy'n barod i weithredu fel Ymddiriedolwyr newydd.

Do, fe gytunodd yr Ymddiriedolwyr i dderbyn cyflwyniad o'r cynllun gan gynrychiolwyr o'r grŵp – ond ar ôl y cyflwyniad, y tu ôl i ddrysau caeëdig, penderfynodd 2 o'r 3 i ddiystyru'r cynlluniau, a gwrthod caniatáu unrhyw waith pellach ar yr opsiynau. Cyflwynwyd eu penderfyniad terfynol i werthu mewn e-bost byr iawn, gan drydydd parti, heb gynnig unrhyw resymeg na chyfiawnhad.

I mi mae'r penderfyniad yn gwbl afresymol. Does dim proses ymgynghori wedi digwydd, heblaw digwyddiad cyhoeddus a drefnwyd heb gydweithrediad yr ymddiriedolwyr, lle'r oedd y mwyafrif llethol o'r cyfranogwyr o blaid ystyriaeth bellach i'r cynllun.

Ein treftadaeth ni – ddinasyddion Caerdydd – yw'r Tŷ arwyddocaol hwn! Dros gyfnod o 85 mlynedd, mae cenedlaethau o Gymry wedi elwa ohono mewn cymaint o ffyrdd. Mae mwy o werth i'r lle na'r arian y gellir ei gyfnewid amdano. Mae'n wir bod y lle wedi 'colli tir' yn y blynyddoedd diweddar – ac mae gwerthu, wrth gwrs, yn un opsiwn. Ond pam diystyru cynllun a allai adfywio'r ganolfan, a'r grŵp o wirfoddolwyr sy'n awyddus i'w archwilio ymhellach? Annealladwy!

Fel aelod o'r grŵp sy'n cynnig cynllun amgen, hoffwn i bwyso ar yr Ymddiriedolwyr i ailystyried a gwrando ar y lleisiau niferus sy'n erfyn arnyn nhw i roi cyfle i'r genhedlaeth nesaf, nawr, ailgydio ym mwriad y rhodd anrhydeddus a wnaed gan Lewis Williams o'r Barri ym 1936, sef ei fod yn ganolfan i *'ddarparu cyfle i Gymry Cymraeg ymgynnull, i fudiadau Cymreig gyfarfod, i hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant ac i weithio tuag at "statws dominiwn Cymraeg" i Gymru.'.*

Yn gywir,

*Steve Blundell*

*(gweler hefyd erthygl Arthur Evans ar dudalen 27)*

## Cronfa Glyndŵr yr Ysgolion Cymraeg Apêl Ariannol

Gwaith yr ymddiriedolaeth hon, a sefydlwyd yn 1963, yw dosbarthu grantiau i gylchoedd meithrin, ysgolion ac unrhyw fudiadau eraill sy'n hyrwyddo addysg Gymraeg. Yn bennaf, dyfernir grantiau ar gyfer adnoddau, gwaith hyrwyddo a darparu cyfleoedd i gyfoethogi profiad plant a phobl ifainc o'r Gymraeg.

Yn sgil pandemig COVID-19, y mae'r Gronfa wedi cyrraedd croesffordd lle mae cyfanswm y ceisiadau yn fwy na'r incwm y mae'r Gronfa yn ei chodi yn flynyddol. Bu'n flwyddyn anodd iawn i gylchoedd meithrin ac ysgolion ac mae hynny wedi'i adlewyrchu yn y ceisiadau y mae'r Gronfa wedi'u derbyn.

Dywed Cadeirydd y Gronfa, Catrin Stevens, "Yn anffodus mae 2020-21 wedi bod yn flwyddyn heriol i addysg Gymraeg gyda chylchoedd meithrin dan warchae a mudiadau iaith dan straen. Er gwaetha'r anawsterau, maent yn benderfynol o ddal ati. Diffyg adnoddau sy'n eu llesteirio. Ac o'r herwydd, mae wedi bod yn flwyddyn heriol i'r Gronfa, gyda gofynion yn llawer mwy niferus ac yn uwch nag yn y gorffennol. Mae'n argyfwng, ac nid ydym bellach yn gallu ymateb i bob cais am gymorth er mor deilwng ydyw."

Un o'r grwpiau i fanteisio yw Cylch Meithrin Pontypŵl, Cylch Meithrin gorau Cymru yn 2021. Medd yr arweinydd, Helen Greenwood "Fe gawson ni grant gan Gronfa Glyndŵr i brynu tocynnau i fynd i weld SIOE RWTSH RATSH RALA RWDINS yn Theatr y Borough, Y Fenni. Cyfle gwych i'r plant a'u rhieni i weld sioe fyw yn Gymraeg. Roedd y tocynnau yn eithaf drud a fyddai pawb ddim wedi gallu fforddio dod gyda ni heb y cymorth yma."

Gwneir yr apêl yn enw Llywydd Anrhydeddus y Gronfa, Cennard Davies, ac mae'n agored tan 30 Ebrill. Am fanylion pellach, cysyllter â Mrs Catrin Stevens, Cadeirydd, ar:

Ff: 01792 893 410 neu E: Catrinstevens@outlook.com
www. cronfaglyndwr.cymru.

**CM Yr Eglwys Newydd, Caerdydd**

Mae arweinwyr ein Cylch wedi adnabod yr offer byddai'n datblygu gallu, gwybodaeth a sgiliau'r plant yn y maes technoleg gwybodaeth mewn modd sy'n hwyl ac yn gyffrous. Ers derbyn yr adnoddau newydd, mae'n amlwg bod hwn wedi llwyddo. Mae'r plant i gyd wedi tyfu mewn hyder ac annibyniaeth gan ddefnyddio'r holl bethau ac mae staff y cylch wedi darganfod sawl ffordd arloesol i'w defnyddio. Hefyd, mae'n golygu bod y cylch yn barod am y newidiadau gyda'r cwricwlwm newydd yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Rydym ni fel Cylch yn ddiolchgar iawn am y cyfraniad gan Gronfa Glyndŵr sydd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i blant a staff Cylch Meithrin Yr Eglwys Newydd.

## Cymrodorion Y Barri

Brethyn cartre gawsom ni nos Fawrth Chwefror 16eg, ond roedd yn debycach i sidan drudfawr, na thipyn o frethyn garw! Ry'n ni mor lwcus i gael aelodau mor athrylithgar a dawnus yn ein cymdeithas. Cymerodd ein Llywydd, Ann Jones yr awenau i sôn am bob peth sy'n ymwneud â serch. Dechreuodd trwy ddyfynnu Aristotle – a ddwedodd mai "un enaid yn rhannu dau gorff yw cariad", a dyna oedd thema'r sgwrs.

Clywsom hanes Dwynwen, a'i chysylltiad â Bro Morgannwg. Gwyddom oll am stori Ynys Llanddwyn, ond wyddech chi fod na ogof ger Llanilltud Fawr, Ogof Tresilian sydd yn ôl yr hanes yn gysylltiedig â Dwynwen? Ynddi mae bwa yn y graig, a phan oedd y llanw'n isel aethai cariadon yno i erfyn ar Santes Dwynwen i wireddu eu cariad, trwy daflu carreg dros y bwa. Am bob methiant ychwanegwyd blwyddyn at yr aros cyn y cawsent briodi. Lle gwerth ymwleld ag ef pan ddaw'r tywydd yn well. Cofiwch fynd pan fo'r llanw'n isel!

Clywsom ddyfyniadau rhamantus gan nifer o feirdd adnabyddus yn eu mysg Goronwy Owen, Dic Jones a Syr John Morris Jones. Roedd yno gyfoeth o agweddau tuag at serch gan y goreuon o'n beirdd, ac ambell englyn a limrig digri hefyd. Pwy ddwedodd nad ydym yn genedl ramantus!? Gorffennodd Ann gyda dwy gerdd hyfryd, 'Eliw Haul' gan T Gwyn Jones, a 'Dau lygad disglair fel dwy em' sef rhieingerdd gan Syr John Morris Jones.

Ni fyddwn yn ciniawa ar ddydd Gŵyl Ddewi eleni, ond mi fydd ein gwraig wadd y newyddiadurwraig Gwenda Davies yn dod atom i sgwrsio ar Fawrth 16eg. Edrychwn ymlaen yn fawr at hynny. Diolch i'r drefn am Zoom ynte?

***Ogof Tresilian***



# Clwb Rygbi Cymry Caerdydd

Wythnos gyntaf Chwefror 2020 oedd hi pan aeth y Clwb i wynebu Treganna mewn gêm gynghrair. Pwy fyddai wedi dychmygu na fyddai'r bechgyn yn cael y cyfle i redeg ar y cae am flwyddyn arall, a dim golwg o rygbi'n ail-ddechrau yn y dyfodol agos o hyd? Deuddeg mis, a'n bywydau wedi'u trawsnewid yn llwyr. Ym mis Mai danfonais e-bost at aelodau'r Clwb, a chrybwyll na fyddwn i yn danfon un arall hyd nes bod y tymor newydd yn dechrau. Doeddwn i ddim yn ystyried na fyddai'r tymor newydd yn dechrau tan fis Medi 2021, ar y gorau!

Wrth gwrs, mae pobl wedi bod yn delio â chymaint o bethau mwy difrifol. Serch hynny, mae'r flwyddyn ddiwetha wedi bod yn rhwystredig iawn i'r chwaraewyr wrth iddynt ddod i arfer â bod gartre bob pnawn Sadwrn. Cafwyd cyfle i ail-ddechrau ymarfer dros yr haf, pan ostyngwyd y cyfyngiadau, ond mae hynny wedi mynd erbyn hyn.

Mae'r bechgyn wedi bwrw ar y cyfle i godi ymwybyddiaeth at achosion da. Aethant ar daith o amgylch Cymru fis Mai dwetha pan, mewn cyd-weithrediad â'r adran iau a'r merched, gasglwyd dros £10,000. Buddsoddwyd y rhan helaeth o'r incwm hyn mewn dyfeisiau cyfathrebu digidol (tabledi), â gyflwynwyd i gartrefu henoed ledled y wlad. Roedd hi'n ymgyrch wych.

Yn y llun gwelir Sam Lewis, CRCC, yn cyflwyno rhai o'r tabledi i ofalwyr yng Nghartref Gofal Shire Homes, Caerdydd.

Ym mis Tachwedd, aeth y Clwb ati i gasglu bwyd ar gyfer banc bwyd Caerdydd. Dros gyfnod o benwythnos, casglwyd dros 1200kg o fwyd, diolch i haelioni'r aelodau a'r gymuned leol, a diolch i sgiliau trefnu'r chwaraewyr. Mae criw o aelodau ifanc sy'n perthyn i'r Clwb y gallwn ni fod yn falch iawn ohonynt!

Cafwyd newyddion trist yn ystod yr haf, gyda marwolaeth Keri Evans wedi cyfnod hir o salwch. Roedd Keri yn wyneb cyfarwydd ers blynyddoedd, yn ddyfarnwr ar Gaeau Llandaf, ac yn athro a mentor yn Ysgol Glantaf. Bu'n hyfforddwr pan oeddem yn sefydlu ein hunain fel Clwb cydnabyddedig gydag URC, ac er ei salwch, roedd i'w weld yn aml ar gaeau Pontcanna yn dadansoddi gêm o'r tu ôl y pyst. Pan oedd Keri'n siarad, roedd pawb yn gwrando, a bydd y Clwb cyfan yn gweld ei eisiau.

Trist hefyd oedd clywed am farwolaeth Buckley Wyn Jones, un o aelodau ffyddlon y Clwb yn y 70au.

Rydym fel pwyllgor yn dal i gwrdd a thrafod y dyfodol pan fydd gemau yn dechrau eto - mis Medi efallai? Y bwriad fydd atgyfodi Aelodau67, a ry'n ni'n dal i ymchwilio i sut y gallwn ddod o hyd i gartref parhaol.

*John Parry-Jones*



# Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACaRh) yng Nghymru yn newid. Gan adeiladu ar yr arfer da mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru, ac yn rhyngwladol, bydd y cwricwlwm ACaRh gorfodol yn cael ei gyflwyno erbyn mis Medi 2022. Amlinellir Cwricwlwm newydd Cymru ym Mesur Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd.

Bydd ACaRh cyfannol newydd Cymru sy'n berthnasol, yn sensitif ac yn briodol i allu ac anghenion plant yn cael ei ddarparu ar draws y cwricwlwm, o'r dyniaethau ac iechyd a lles, i wyddoniaeth a thechnoleg. Bydd ei bwyslais ar hawliau, cynwysoldeb LGBTQ+, cydraddoldeb rhywedd a grymuso yn helpu ysgolion i ddatblygu ACaRh o ansawdd uchel gan sylweddoli'r nifer o ganlyniadau cadarnhaol a gwarchodol i blant, pobl ifanc a'u cymunedau sy'n dod o ddarpariaeth ansawdd uchel.

Ar hyn o bryd, dim ond rhai plant a phobl ifanc sy'n derbyn ACaRh o ansawdd uchel. Mae gwneud ACaRh yn orfodol yn galluogi pob ysgol i rymuso pob dysgwr yn raddol i feithrin y wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd moesegol fel y gallant fwynhau eu hawliau i berthnasoedd diogel, iach a boddhaus drwy gydol eu bywydau.

Felly, wrth i Gyfnod 3 yn natblygiad y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) ddechrau ar yr ail o Fawrth, rydym ar y cyd, yn galw ar holl Aelodau'r Senedd i gefnogi'r cynigion. Wrth wneud hynny, am y tro cyntaf, bydd pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn gallu cael gafael ar ACaRh o ansawdd uchel a chael budd ohono, yn unol â'u hawliau dynol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

*Barnardo's Cymru, Brook, Children's Commissioner for Wales, NSPCC Cymru/Wales, Professor EJ Renold (Prifysgol Caerdydd), Children in Wales, Welsh Women's Aid, PLAN International, Mencap Cymru, Umbrella Cymru, a Stonewall Cymru.*

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

**Yr Athro E. Wyn James**



## Tribannau Caerdydd

Wrth drafod tribannau Morgannwg yn y golofn hon yn rhifyn diwetha'r *Dinesydd*, nodais mai un o'u nodweddion pennaf oedd eu brogarwch. Ys dywedodd yr Athro G. J. Williams, 'Canfyddir ynddynt [...] [g]ariad mawr at Forgannwg a'i phethau – pentrefi gwyngalchog y Fro, hen gartrefi'r Blaenau. [...] Cânt hwyl wrth fydryddu enwau lleoedd, fel petaent yn eu hanwesu – ni chredaf fod yr ymdeimlad hwn mor amlwg yng nghanu gwerin yr un rhanbarth arall.' Ond er bod llu o enwau lleoedd yn y cannoedd o dribannau sydd yng nghasgliad Tegwyn Jones, *Tribannau Morgannwg* (1976), mewn dau driban yn unig y sylwais ar yr enw 'Caerdydd'.

(a) *Triban y ddwy lygoden*
Mae llawer o hiwmor a digrifwch yn perthyn i dribannau Morgannwg, a gwelir hynny'n glir yn y cyntaf o'r ddau driban sy'n enwi Caerdydd. Cerdd ffwlbri ydyw, nid yn annhebyg i'r math o gerddi a gysylltwn ag Edward Lear yn y Saesneg ac Idwal Jones yn y Gymraeg. Y mae hefyd yn perthyn i'r dosbarth helaeth hwnnw o dribannau sy'n agor â'r geiriau 'Mi welais' neu 'Mi welaf' (neu ryw amrywiad tafodieithol arnynt, megis 'Fi welas' neu 'Fi wela'). Fe'i codwyd gan Tegwyn Jones o'r casgliad o dribannau, baledi a phenillion a grynhodd yr hynafiaethydd Ebenezer N. Williams ('Gwernyfed'; 1843–1913) o Ferthyr Tudful, casgliad sydd bellach yn y Llyfrgell Genedlaethol:

> Mi welas ddwy lygotan
> Yn llusgo *coach* yn llawan
> O Gaerloyw i Gaerdydd
> A Dic y Crydd yn *goachman*.

Un o nodweddion caneuon y werin yw eu bod, wrth fynd ar led ar lafar, yn magu amrywiadau. A dyna sy'n wir yn achos y triban hwn, oherwydd ceir fersiwn arall yng nghasgliad Tegwyn Jones (a godwyd ganddo o'r *Cardiff Times*, 14 Mehefin 1913) lle y mae'r goits yn dod i Gaerdydd, nid dros y ffin o'r dwyrain, ond o Ewenni yn y gorllewin, gan gludo peth o grochenwaith enwog y pentref hwnnw:

> Mi welais ddwy lygotan
> Yn llusgo *coach* yn llawan
> O Ewenni i Ga'rdydd
> Â llestri pridd a halan.

Fel yn achos y tribannau yn gyffredinol, mae tinc tafodieithol amlwg i'r triban hwn, fel y tystia ffurfiau megis 'llygotan' a 'llawan'. Ond bu llawer o safoni ar iaith y tribannau wrth eu trosglwyddo o'r llafar i bapur, a dyna sy'n cyfrif, mae'n siŵr, am y ffaith mai 'Caerdydd' yw'r ffurf ar yr enw yn y fersiwn cyntaf a nodir yma, tra mai'r ynganiad tafodieithol 'Ca'rdydd' a ddiogelwyd yn yr ail.

Mewn nodyn yn ei gasgliad, mae Tegwyn Jones yn tynnu sylw at amrywiad arall eto ar y triban hwn. Mae'r fersiwn hwnnw'n dal i sôn am lestri pridd a halen, ond y tro hwn mae man cychwyn y daith wedi symud ymhellach i'r gorllewin, i Gaerfyrddin:

> Mi welais ddwy lygoden
> Yn llusgo *coach* yn llawen
> O dref Caerfyrddin i Gaerdydd
> Llawn llestri pridd a halen.

Yn ôl gohebydd yn *Y Darian,* 17 Mawrth 1927, roedd y fersiwn hwn ar y triban yn 'boblogaidd iawn gan weision ffermydd Sir Gâr ganrif neu fwy yn ôl'.

Yn *Y Cerddor* ym mis Mawrth 1893, cyhoeddwyd amrywiad ar y fersiwn o'r triban sy'n mynd 'O dref Caerfyrddin i Gaerdydd', ynghyd â'r gerddoriaeth ar ei gyfer (sef rhan o alaw 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn'). Un o benillion cân ychen ydyw yn *Y Cerddor*. Dywed un o olygyddion y cylchgrawn, D. Emlyn Evans, am y gân honno: 'Dro yn ôl darfu i hen gyfaill o Forgannwg adrodd i ni nifer o'r hen benillion a genid gan y bechgyn pan yn gyrru yr ychain, yn y sir ddiddorol a rhamantus honno, yn ei amser ef'; a cheir ar ddiwedd y pennill y math o fwrdwn sydd mor nodweddiadol o ganeuon ychen:

> Fe welais ddwy lygoden
> Yn llusgo *coach* yn llawen
> O Gaerfyrddin i Gaerdydd
> A llestri pridd a halen. –
> Oho! was i.

Yn *Y Gwladgarwr*, 13 Tachwedd 1869, ceir rhywun yn sôn iddynt glywed dyn ifanc yn canu'r triban hwn wrth aredig ar faes ger y Filltir Aur rhwng y Bont-faen a Phen-y-bont ar Ogwr, ond mynd yr oedd y goits o Lanelli i Gaerdydd yn y fersiwn hwnnw ar y triban, ac nid o Gaerfyrddin.

Cofnodir amrywiad arall eto fyth ar y triban hwn gan John Gilbert Evans yn ei gyfrol *Llyfr Hwiangerddi y Dref Wen* (1981):

> Mi welais ddwy lygoden
> Yn llusgo pedair wagen
> O Gaerloyw i Gaerdydd
> A John y crydd yn gapten.

Dywedir yn y cylchgrawn *Cymru* yn 1916 fod y fersiwn hwnnw o'r triban ar lafar gwlad yn ardal Ffair-rhos yng Ngheredigion; a cheir fersiwn eithaf gwahanol arno yn y *Carmarthen Journal*, 4 Ebrill 1890:

> Mi welais ddwy lygoden
> Yn llusgo *coach* a derwen
> O Gaerloyw i Gaerdydd
> A chrochan pridd a hufen.

Diddorol hefyd yw gweld yn *Llyfr Hwiangerddi y Dref Wen* sawl pennill arall sy'n enwi Caerdydd:

Gyrru, gyrru i Gasnewydd
I 'mofyn pwn o lestri newydd;
Gyrru, gyrru i Gaerdydd
I 'mofyn pwn o lestri pridd.

Hai, gel* bach, tua Chaerdydd
I 'mofyn pwn o lestri pridd;
Hai, gel bach, i Aberhonddu,
Dwmbwr-dambar, llestri'n torri.
*cel = ceffyl

Dafi bach a minnau
Yn myned i Gaerdydd,
Dafi'n prynu 'sgidiau
A minnau'n twyllo'r crydd.

(b) *Triban serch*
Mae nifer dda o dribannau Morgannwg yn ymdroi ym myd serch, ac un felly yw'r ail driban yng nghasgliad Tegwyn Jones sy'n enwi Caerdydd. Mae'n driban sy'n cyfuno'n effeithiol hiwmor y gerdd ffwlbri a gormodiaith y gân serch. Fe'i codwyd gan Tegwyn Jones o'r cylchgrawn *Cyfaill yr Aelwyd*, Awst 1884, lle y nodir ei fod yn un o'r tribannau a gasglwyd gan William John ('Gwilym Glan Afan') o Bont-rhyd-y-fen, a fu farw yn 1907:

Mi gariaf rhwng fy mreicha
Gaerdydd ac Abertawa,
A Chasnewydd ar fy mhen
O serch at Gwen liw'r bloda.

Nid oes lle amlwg i Gaerdydd yn nhribannau Morgannwg, felly, ac ni allwn gasglu llawer mwy am y lle o'r tribannau uchod na'i fod yn dref o faint, a honno mewn man allweddol ar y briffordd trwy Forgannwg. (Byddai'n dda gweld cystadleuaeth llunio triban yn cynnwys yr enw 'Caerdydd' yng ngholofn 'Pobol y Rhigwm' yn *Y Dinesydd* neu yn rhestr testunau Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd.) Ond fe geir tribannau sy'n enwi mannau sydd erbyn hyn yn rhan o'r ddinas, megis Llandaf a'r Eglwys Newydd, Treláí a Thyllgoed, Rhiwbina a Radur, ac fe ddychwelwn at y rheini yn y golofn hon rywbryd eto, os byw ac iach.

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd


*Gwenda Morgan*

Bu cyfarfodydd 'mis bach' yn arbennig am fod y cyfranwyr i gyd yn aelodau o'r gymdeithas leol ac yn adnabyddus i bawb.

Ar ddydd Gwener, 5ed o Chwefror, cafwyd cwmni mam a merch, sef Gwenda Morgan, ein Cadeirydd, ac Eleri Morgan Thomas, Rhiwbeina i gynnal cwis, gyda chwestiynau amrywiol ar bynciau fel llenyddiaeth, crefydd, hanes, cerddoriaeth a chyffredinol. Unwaith eto, cafodd pawb gyfle i hogi eu meddyliau ac i ddwyn i gôf amrywiaeth o atebion. Yr enillydd oedd Mair Morgan gyda marciau uchel a llawer eraill yn llwyddo i ateb y cwestiynau diddorol a osodwyd. Bu'n brynhawn hwylus, diolch i'r fam a'r ferch!

Ar Chwefror 19, croesawyd Trystan a Sian Francis, Rhiwbeina i ddiddori'r gynulleidfa luosog ar Zoom. Mae Trystan yn fariton medrus a Sian yn unawdydd a phianydd dawnus. Hefyd, mae'r ddau yn adnabyddus fel gweithwyr brwd yng nghymuned Rhiwbeina, lle maent yn byw, gyda'u plant Mimi a Jac. Mae Trystan yn gweithio fel trefnydd clybiau Carco ôl ysgol i blant gyda'i gydweithiwr Elgan Davies, a Trystan a Sian yn hyfforddi plant mewn cerddoriaeth yng nghwmni Do Re Mi ar y we.

Er gwaethaf y pandemig mae'r ddau yn dal i ganu ar y cyfryngau. Bu'n bleser i'r aelodau wrando ar raglen o unawdau a deuawdau o amrywiaeth eang o gerddoriaeth draddodiadol, o sioeau cerdd a chlasurol, rhai ohonynt wedi eu cyfieithu gan ei fam, Gwenda Francis. Ymfalchiai Trystan fod ei famgu, Meirwen Davies, wedi bod yn aelod ffyddlon gan fwynhau a gwerthfawrogi Aelwyd Hamdden hyd at ei chanfed pen blwydd.

Gwerthfawrogodd bawb gyfarfod o gerddoriaeth swynol gan y ddau arbennig o ddawnus!

Cynhelir cyfarfod i ddathu Gwyl Dewi yng nghwmni Rhiannon Evans, yr Eglwys Newydd, ar ddydd Gwener, Mawrth 5 am 2 o'r gloch ar Zoom. Os dymunwch ymuno â ni, cysylltwch ar e-bost - aelwydhamdden@gmail.com.


*Sian a Trystan Francis*

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## BETHLEHEM, GWAELOD Y GARTH

**Oedfaon Rhithiol Mawrth 2021:**

7 – Delwyn Sion (Cymun)
14 – Parchg Aled Edwards
21 – Arwel Ellis Owen
28 – Parchg Robert Owen Griffiths

Ar y 18fed o Chwefror 2021 fe laniodd y cerbyd *Perseverance* ar y blaned Mawrth, a hyn fel rhan o ymgyrch "Mawrth 2020" gan NASA, asiantaeth ofod Unol Daleithiau'r America.

Mae glanio ar y Blaned Goch wedi bod yn rhan o ymdrechion gwladwriaethau gwahanol dros y byd ers '70au'r ganrif ddiwethaf, rhai yn llwyddiant, eraill yn ddiffygiol.

Cychwynodd y roced a gariai'r cerbyd ar Orffennaf y 30ain 2020, a theithiodd dros 293 miliwn o filltiroedd, cyn gostwng y llwyth yn daclus yng Nghrater Jezero i gychwyn ar ei waith dwy flynedd (un flwyddyn Mawrth) o chwilio am dystiolaeth o fywyd ar y blaned.

(Pentref mewn ardal hynafol o Bosnia-Herzegovinia ydi "*Jezero*" a'i ystyr ydi llyn yn yr iaith frodorol.)

Cafwyd cystadleuaeth yn ysgolion yr UDA i enwi'r cerbyd a anfonwyd i blaned Mawrth, a'r buddugwr, o'r 28000 o gynigion, oedd bachgen 12 / 13 oed, o'r enw Alexander Mather o dalaith Virginia.

Yn ei draethawd buddugol awgrymodd fel a ganlyn:-

*"Chwilfrydedd. Dirnadaeth. Rhuddin. Cyfle. Dyna enwau'r cerbydau a fu ar y blaned Mawrth yn y gorffennol – pob un yn cyfeirio at briodolweddau'r hil ddynol. 'Rydym bob amser yn chwilfrydig ac yn ceisio cyfle. Mae gennym y rhuddin a'r ddirniadaeth i fynd i'r lleuad a thu hwnt. Ond gochelwn, mewn byd llawn siomiant, rhag colli'r awch i ddyfalbarhau."*

A thra'n chwilio am adnod berthnasol yn Ap Beibl, syndod o'r mwyaf oedd darganfod mai dim ond un oedd yn cynnwys y gair "dyfalbarhau", a honno yn Rhufeiniaid 12:12!

"*Yn llawen mewn gobaith; yn ddioddefgar mewn cystudd; yn dyfalbarhau mewn gweddi*"

A dim ond ym Meibl William Morgan y cewch hon!

Beth tybed a ddigwyddodd i "ddyfalbarhau" wedi 1588?

## TABERNACL, YR AIS

**Penblwydd yn 100 oed**

Llongyfarchiadau i Elwyn Jones, aelod hynna'r Tabernacl, ar gyrraedd carreg filltir arbennig yn 100 mlwydd oed ddiwedd mis Chwefror. Brodor o Bancffosfelen yn wreiddiol, bu'n byw yn y Bont Faen ers blynyddoedd bellach.

**Genedigaeth**

Cyd-ddathlwn gyda Dai a Nia Boobier ar enedigaeth eu hwyres gyntaf. Ganwyd, i Hawys a'i phriod, ferch o'r enw Moira, ac estynnwn i'r teulu cyfan ein dymuniadau gorau. Roedd yn hyfryd hefyd i dderbyn y newyddion am enedigaeth Emlyn Llewellyn Rees, mab Bethan Pickard a'i phartner Matt Rees. Bydd Mike a Shan Pickard yn edrych ymlaen at ddyletswyddau ychwanegol ac wrth gwrs bydd Anti Sara yn llawn cariad a chyffro.

**Dydd Gweddi'r Byd 2021 - Cylch Caerdydd**

Fel arfer cynhelir Dydd Gweddi'r Byd yn flynyddol ar ddechrau mis Mawrth. Dyma'r symudiad eciwmenaidd mwyaf yn y byd gyda chymaint o enwadau gwahanol yn cymryd rhan. Yn ddelfrydol eleni y dylem fod wedi trefnu'r gwasanaeth yma yn y Tabernacl, ar y 5ed o Fawrth. Oherwydd y pandemig roedd swyddogion Cylch Caerdydd, Helen Jones, Mary Thomas a Ruth Davies wedi penderfynu gohirio'r gwasanaeth a'i gynnal pan fydd canllawiau'r llywodraeth yn caniatau mwy o ryddid i ni ddod at ein gilydd.

**Oedfaon ar y Suliau.**

Diolch i Rhodri ab Owen am drefnu'r wedd hon o'n bywyd eglwysig. Mae'r oedfaon boreol i gyd ar Zoom am 10.30am. Trefnwyd gwasanaethau Chwefror yn eu tro gan y canlynol - Plant yr Eglwys, Bill a Ruth Davies a Calan McGreevy, Beca Evans, Gwion Rhisiart a Dafydd Huw ac yn olaf gan Gwenllian Evans, Linda Gruffudd a Shirley-Ann James.

Yn yr hwyr cynhaliwyd oedfaon byw o'r Tabernacl. Arweiniwyd yr oedfaon hyn gan Dyfrig Lloyd Eglwys Dewi Sant, Denzil John Y Tabernacl, Owain Evans Minny Street a Mrs Helen Jones Y Tabernacl .

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Mae deugain diwrnod y Grawys wedi cychwyn, a bydd llawer ohonom yn newid rhywbeth yn ein bywyd bob dydd yn ystod yr wythnosau hyn. Bob blwyddyn, byddwn ni yn yr Eglwys Gatholig yn ceisio defnyddio'r cyfnod fel cyfle i edrych o'r newydd ar ein taith ysbrydol, i geisio dod yn well disgyblion i'r Iesu a'i wasanaethu'n well.

Mae darllen mwy ar yr ysgrythurau neu gynnig gweddïau arbennig yn arferol, yn ogystal â chyfrannu at waith elusengar, efallai drwy roi'r gorau i rywbeth.

Mae'r Tad Daniel Stanton yn yr Eglwys Gadeiriol yng Nghaerdydd wedi llunio Ffordd y Groes rithiol yn Gymraeg eleni, gan ddefnyddio lleisiau Catholigion o bob cwr o Gymru. Roedd yn her i sawl un ohonom recordio'r darlleniadau ar ffôn symudol, ond gobeithio bydd y defosiwn ar gael ar YouTube yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth. Chwiliwch am Ffordd y Groes 2021.

**Ffordd y Groes**

Pan ewch chi mewn i Eglwys Gatholig gwelwch ar y waliau o gwmpas yr Eglwys 14 llun neu ddelwedd sy'n coffáu taith Iesu at y Groes. Y mae'r gorsafoedd yn seiliedig ar y Ffordd Sanctaidd yn Jerusalem, a stori dioddefaint a marwolaeth Iesu, fel y sydd yn yr Efengylau. Yn ystod y Grawys, cynhelir gwasanaeth Gorsafoedd y Groes, pan ddaw'r gymuned at ei gilydd i ddilyn y ffordd hon, trwy aros wrth bob gorsaf i fyfyrio ar ddigwyddiadau Gwener y Groglith cyntaf. Pererindod ysbrydol yw'r ddefod hon, a dydd Gwener yw dydd traddodiadol y gwasanaeth. Daeth y Brodyr Ffransisgaidd â'r defosiwn hwn i Ewrop yn y bymthegfed ganrif. Mewn cyrchfannau fel Pantasaph, mae capel i bob un o'r gorsafoedd hyn, ac mae'r ffyddloniaid yn dringo'r bryn gan aros wrth bob capel i gofio taith olaf Iesu gyda'i groes i Ben Calfaria a'r bedd.

**Cofiwn** yn arbennig yn ein gweddïau y Canon William Isaac, offeiriad plwyf Teilo Sant, sydd yn sâl ar hyn o bryd, a dymunwn wellhad buan iddo.

Cyswllt: carys@caerdelyn.com

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Eglwysi'n Ymuno**

Un o fanteision Zoom yw'r gallu i gysylltu â phobl eraill ble bynnag y bônt. Yn ddiweddar ymunodd Capel y Ffynnon Bangor, yn ein gwasanaethau. Ein gweinidog Emyr James oedd yn pregethu a chawsom gyfle ar ddiwedd y gwasanaeth i gael sgwrs a chymdeithasu. Ddiwedd y prynhawn cawsom gyfle arall i ymuno ac astudio darn o'r Ysgrythur. Dyma'r ail waith i ni wneud hyn a mawr yw'r gwerthfawrogiad.

**Paned a Sgwrs**

Yn ein cyfarfod bore Mercher, trafododd Christine James y cerddi a luniodd pan yn Fardd y Mis Radio Cymru yn Rhagfyr 2020. Lluniwyd nifer o gerddi, rhai ar thema'r Nadolig gan gynnwys 'Carol y Saer a'r Pren', lle mae Joseff yn ceisio penderfynu pa fath o goed i'w ddefnyddio i lunio crud i'r baban Iesu, a gofyn, "Pa bren sydd yn gweddu Gwaredwr?" Y profiad o gwrdd fel eglwys ar Zoom gafwyd mewn cerdd arall gan holi a ydym yn paratoi'n hunain yn ddigonol, neu ydy'r profiad yn rhy gyffyrddus?

**Mini Gwersyll**

Fel arfer yn Chwefror cynhelir gwersyll i blant a phobl ifanc gan Fudiad Efengylaidd Cymru yn Y Bala. Ond doedd hi ddim yn bosib ei gynnal eleni. Daeth Zoom i'r adwy a llwyddwyd i gynnal amrywiaeth o weithgareddau ar dri bore ac ymunodd rhyw 60 yn yr hwyl. Emyr, ein gweinidog, oedd yn gyfrifol am baratoi neges fer bob bore.

**Trafod Cerddi ac Emynau Cristnogol**

Yn ddiweddar trafodwyd yr emyn sy'n dechrau "Golchwyd Magdalen yn ddisglair",- gan William Morris. Roedd tri phennill i'r emyn er mai'r pennill cyntaf yn unig a geir yn Llyfr Emynau'r Methodistiaid (rhif 308).

Esboniodd Wyn James y datblygiad amlwg, ym mhrofiad William Morris. Yn y pennill cyntaf mynega ei ansicrwydd.

"Pwy a wyr na olchir innau?
Pwy a wyr na byddaf byw?"

Aeth blwyddyn heibio cyn ysgrifennu'r ail bennill ac mae'r emynydd yn fwy gobeithiol

"Gwneir, fe wneir, fe'm golchir innau ;
Gwn, mi wn y byddaf byw;"

Mae'n debyg i'r trydydd pennill gael ei ysgrifennu o fewn pum niwrnod i'r ail ac erbyn hyn mae William Morris yn sicr o'i ffydd

" Diolch byth am drefn y cadw,
Diolch byth am farw'r groes,"

Bu William Morris farw yn fuan ar ôl ysgrifennu'r geiriau yma.

## SALEM, TREGANNA

**Gwasanaethau**

Rydym yn parhau gyda'n gwasanaethau dros Zoom bob bore Sul, a chroeso i aelodau a ffrindiau i ymuno. Mae'r Ysgol Sul rhithwir hefyd wedi bod yn cwrdd dros Zoom am 11, nes y gallwn gwrdd yn gorfforol unwaith eto!

**Disgo yr Ysgol Sul a Chwis**

Cafodd yr Ysgol Sul hwyl dros hanner tymor drwy gynnal disgo, gyda'r Disco King ei hun, Aled Wyn! Cafwyd noson gwis hefyd i'r Bobl Ifanc, felly rhywbeth at ddant pawb!

**Priodas Ddiemwnt**

Llongyfarchiadau i Bev a Branwen Thomas ar ddathlu eu priodas ddiemwnt. Dymuniadau gorau am flynyddoedd o hapusrwydd eto gan bawb yn Salem.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â Ffion Buckland-Williams a gollodd ei thad yn ddiweddar, a Delyth Thomas sydd wedi colli ei mam. Rydym yn meddwl amdanoch a'ch teuluoedd ar hyn o bryd.

## TABERNACL, Y BARRI

Mae adeilad capel Tabernacl yn dal ar werth, ond mae gennym brynwr sy'n ein plesio yn fawr. Mae'r cynnig wedi ei dderbyn gennym ers peth amser ac wrth gwrs mae'r cyfnod Cofid yma wedi creu pob math o broblemau i ni bob un yn ariannol ac yn bersonol.

Bu llynedd yn gyfnod o adfer gorfodol i'r adeilad. Bu'n rhaid i ni adnewyddu'r to gan fod rhai o'r llechi wedi eu chwythu i ffwrdd a'r broblem wedi cynyddu wrth i golomennod ddod i mewn i'r adeilad. Hefyd roedd simne'r gwresogydd nwy wedi ei flocio gan sbwriel adar heb fodd i'w glirio, ac fe gondemniwyd y boiler gan ei fod yn gollwng y nwyon yn syth i'r adeilad. Hen beiriant a dim modd i'w drwsio ac roedd felly'n rhaid adnewyddu hwnnw hefyd! Y gobaith yw y gallwn gael ychydig o ddefnydd o'r adeilad eto cyn i'r prynnwr newydd ei feddiannu.

Dymunwn pob iechyd a hoen i Euryn Ogwen sydd wedi bod yn yr ysbyty am gyfnod. Y mae bellach adre ac ychydig yn well.

Ar nodyn hapusach - llongyfarchiadau mawr i Geraint a Stacy Scott ar enedigaeth Eifion Gruffydd ar Chwefror 22ain. (gweler llun ar y clawr)

## EBENESER

**Dathliad arbennig**

Ar 2 Chwefror dathlodd Mair Bennett ei phen blwydd yn 90 oed. Llongyfarchiadau ar y garreg filltir hon a phob dymuniad da gan holl aelodau Ebeneser.

**Carreg filltir**

Llongyfarchiadau i Dr Elin Ellis ar ddathlu 30 mlynedd ddechrau Chwefror o weithio mewn iechyd meddwl. Diolch i Elin a'i chyfoedion sy'n gweithio mewn maes mor hanfodol bwysig,

**Bagiau bwyd**

Diolch i bawb gyfrannodd fwyd at waith Enfys Gobaith gydag ymgeiswyr lloches a'r digartref yng Nghaerdydd. Byddwn yn casglu bwydydd sychion unwaith eto yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth.



**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn yn fawr iawn gyda Joy Dyer a'i theulu yn y brofedigaeth a'u colled. Bu farw mam Joy yn yr ysbyty ar 20fed o Chwefror.

**Darlith Hanes**

Traddododd y Parchg Dr. Alun Tudur ddarlith ar wahoddiad Cymdeithas Hanes yr Annibynnwyr yn dwyn y teitl, "Y Pla ac Ymateb yr Eglwys: yn nydd yr haint echryslon." Cychwynnodd trwy roi bras olwg o blâu trwy'r canrifoedd ers cyfnod y Rhufeiniaid hyd yn awr. Manylodd wedyn ar ymweliadau heintiau â Chymru gan orffen gydag ymateb yr eglwysi. Os hoffech glywed y ddarlith y mae recordiad ohoni ar gael ar wefan Annibynwyr.cymru.

**Cydaddoli**

Ar Sul olaf Ionawr ymunodd cynulleidfa Ebeneser mewn oedfa o fawl ar Zoom gydag eglwysi Cricieth, Salem, Porthmadog a Rhydymain. Cafwyd croeso twymgalon gan eu gweinidog y Parchg Iwan Llewelyn Jones.

## EGLWYS Y CRWYS

Cafodd Eglwys y Crwys golledion pellach yn ystod yr wythnosau diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu Mr David Parry, gŵr annwyl a thawel a fu'n aelod ffyddlon o'r Crwys am flynyddoedd lawer. Mae ein meddyliau gyda'i weddw, Mrs Ann Parry a'r plant John a Catherine.

Yn yr un modd cydymdeimlwn â theulu Mr Douglas Griffiths, yntau wedi bod yn aelod ffyddlon a chymwynaswr hael, yn ŵr addfwyn, di-ffws. Meddyliwn am ei chwaer a'i nai yn eu colled.

Byddwn yn gweld eu heisiau yn fawr iawn.

Cafodd y Gymdeithas noson hynod o hwyliog yng nghwmni y Parchg Marcus Robinson gyda straeon difyr am ei waith fel Caplan yn y Llynges cyn dychwelyd i fod yn Weinidog yn ei ardal enedigol yng Nghaernarfon. Dymunwn yn dda iddo ar ei ymddeoliad ymhen ychydig wythnosau.

Edrychwn ymlaen at ddathlu Gŵyl Dewi yng nghwmni Delyth Jewell, ASC, nos Wener, Mawrth 12fed.

Gan fod drysau'r capel yn dal ar glo, byddwn yn parhau i gynnal gwasanaethau rhithiol yn ystod mis Ebrill. Cynhelir Oedfa Gymun ar Sul y Pasg ar Ebrill 7fed o dan arweiniad y Gweinidog. Gwasanaethir ar Ebrill 11eg gan Mrs Margaret Jones, Port Talbot; Y Gweinidog ar Ebrill 18fed, a chroesewir y Parchg Megan Williams, Llanfairpwll i wasanaethu ar Ebrill 25ain. Diolch i bob un ohonynt am fod mor barod i baratoi ar ein cyfer ac i Peredur Owen Griffiths am y trefniadau.

## BETHEL, PENARTH

Wrth lunio'r nodiadau hyn, nodwn achlysur nodedig, sef, penblwydd ein haelod hynaf Harri oedd yn 98 oed ar Chwefror 27ain. Anfonwn ato ein cyfarchion mwyaf gwresog.

Trwy gyfrwng Zoom ar gyfer ein hoedfaon Sul a digwyddiadau eraill gwelwn gyda llawenydd fod Edryd yn dal i gryfhau.

Cofiwn yn dyner ac yn ddiolchgar am Y Parchedig Hugh Matthews a fu farw'n ddiweddar. Bu Dr Matthews yn ffrind cywir iawn i Fethel pan nad oedd gennym weinidog.

Ddydd Llun, Chwefror 22, gwelsom gychwyn ar gyfres o gyfarfodydd i nodi Tymor y Grawys. Bydd ein myfyrdodau dan arweiniad ein gweinidog. Seilir y trafod ar ddeunydd a baratowyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Ein tywysydd hynaws ar Zoom yw Osian-Rhys. Diolch yn fawr iddo.

Rydym yn dra diolchgar i Emma a Sianmeinir am drefnu sesiynau ysgafn wythnosol, Coffi a Chlonc. Does neb yn gwybod beth gaiff sylw. Ym mhob pen mae piniwn! Rhydd i bob un ei barn.

Yn ystod mis Chwefror, dan arweiniad ein gweinidog, cawsom arlwy amrywiol ar gyfer myfyrdod y Sul: lle dawnsio fel rhan o addoliad (7fed); ai barn Duw yw Covid-19? (14eg); cyflwyniad i'r Grawys (21ain). Diolch Kevin.

## EGLWYS MINNY STREET

**Oedfaon ac addoli**

Mae ein patrwm newydd o oedfaon fore Sul, bore Mercher a nos Fercher yn parhau dan arweiniad ein gweinidog, gydag ambell lais gwahanol yn arwain yn achlysurol ar y Sul. Gan na all pawb ddod i'r oedfaon yn y capel, mae modd dilyn yr addoliad ar fore Sul a bore Mercher dros *Zoom.* Diolch i'r gweinidog am ddarparu taflen addoli wythnosol i gyd-fynd ag oedfa'r Sul. Oherwydd y cyfyngu ar niferoedd yn sgil y pandemig, mae hi'n ofynnol rhoi gwybod ymlaen llaw er mwyn cael mynychu oedfaon yn y capel.

**Tymor y Grawys**

Dros Dymor y Grawys, mae addoliad bore Mercher yn dilyn y thema *Grawys: Gweddi a Gwasanaeth* a bydd crynodeb yn ymddangos yn wythnosol ar wefan a thrydar yr eglwys ar nos Fercher. Byddwn yn troedio'r Grawys yng nghwmni Luc (*Y Grawys gyda Luc*) ar ffurf awgrym o ddarlleniad a myfyrdod beunyddiol a fydd ar wefan a thrydar yr eglwys tan Sul y Pasg. Byddwn hefyd yn dathlu Gŵyl Dewi â chwrdd gweddi.

**Yr Ysgol Sul a *PIMS***

Bydd yr Ysgol Sul yn parhau i gyfarfod dros *Zoom* ar brynhawn dydd Mawrth. Yn anffodus, nid oes modd cynnal sesiynau *PIMS* (Pobl Ifanc Minny Street) ar hyn o bryd ond bwriedir ailgydio yn y cyfarfodydd cyn gynted ag y bydd y cyfyngiadau'n caniatáu.

**Y Gymdeithas**

Mae rhaglen mis Mawrth y Gymdeithas dros *Zoom* yn cynnwys dau gyfarfod: sgwrs rhwng Delyth Williams ac Ann Griffith, Washington DC (2 Mawrth); a sgwrs rhwng Peter Griffiths a'r gohebydd Wyre Davies (23 Mawrth).

**Cefnogi elusen *Boomerang***

Yn dilyn ymgyrch yn ystod mis Chwefror, cyfrannwyd cyflenwad sylweddol o nwyddau i gefnogi gwaith elusennol *Boomerang,* sy'n cynorthwyo'r digartref sydd wedi cael to uwch eu pen ond sy'n brin o offer a deunyddiau cartref, ynghyd â theuluoedd tlotaf y ddinas.

www.minnystreet.org @MinnyStreet

## EGLWYS DEWI SANT

**Eglwys Dewi Sant ar yr Aelwyd**

Cynhelir dau wasanaeth trwy bodlediad, un yn y bore ac un gyda'r hwyr ar y Sul o hyd er bod un gwasanaeth yn yr eglwys ei hun a mawr yw ein diolch am y gwaith a'r cyfraniadau a olyga ein bod yn derbyn y podlediadau gwerthfawr hyn.

**Gwasanaeth Trwyddedu**

Nos Iau yr 11eg o Chwefror, cynhaliwyd gwasanaeth trwyddedu'r Parchedig Dyfrig Lloyd, Ficer Eglwys Dewi Sant, yn Ddeon Bro Caerdydd gan Esgob Llandaf a hynny tros Zoom oherwydd y cyfyngiadau presennol. Dymunwn yn dda iddo yn ei gyfrifoldebau newydd ychwanegol.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â theulu Pegi Davey, un o ffyddloniaid yr Hwyrol Weddi yn eglwys Dewi Sant. Hefyd, â Siân Eleri Thomas ar farwolaeth ei thad a gyda Gwyneth Jennings ar farwolaeth ei mam.

**Noson Gymdeithasol**

Nos Fawrth Ynyd, cyn dechrau Tymor Y Garawys, cafwyd noson gymdeithasol anffurfiol tros Zoom, a chyfle am sgwrs a bwyta pancws!

**Dydd Mercher y Lludw**

Ar yr 17eg o fis Chwefror roedd hi'n ddechrau Tymor Y Garawys. Fe fu gwasanaeth yn yr Eglwys ond eleni, heb arnodi lludw ar y talcen yn arwydd allanol o edifeirwch. Derbyniwyd Gwasanaeth trwy bodlediad yn ogystal.

**Coffi a Chlonc**

Fel arfer ar 3ydd bore Sadwrn y mis, cafwyd sesiwn Coffi a Chlonc yn rhithiol tros Zoom.

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod y mis cawsom gyfle i groesawu i'r pulpud y Parchg Dafydd Andrew Jones a Mr Emlyn Davies, ac ar Chwefror 9 roedd y gwasanaeth cymun yng ngofal ein

gweinidog, y Parchg Evan Morgan. Oherwydd y llifogydd, ar Chwefror 16 yn anffodus ni fedrodd y pregethwr gyrraedd Rhiwbeina ond daeth nifer o'r aelodau i'r adwy ar fyr-rybudd a chyflwyno gwasanaeth hyfryd ar y thema 'Goleuni'. Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt.

Rydym yn cydmdeimlo'n ddwys â Mrs Mair Davies a gollodd ei brawd yn ystod y mis diwethaf.

Ar Sul olaf y mis bach edrychwn ymlaen at groesawu Cylch Meithrin Rhiwbeina i'r capel pan fyddant yn dathlu Gwyl Ddewi. Mae'r Cylch wedi bod ar safle Bethel ers nifer fawr o flynyddoedd bellach ac yn ddiweddar bu'n dathlu pen-blwydd yn 60 oed.

Cyfarchion pen-blwydd arbennig i Mr Gwilym Roberts, organydd Capel Bethel un a fu'n flaenllaw yn sefydlu Cylch Meithrin Rhiwbeina.

Ar Sul cyntaf mis Mawrth edrychwn ymlaen at ddathlu Gŵyl Dewi gyda'r Parchg Glyn Tudwal Jones a chawn gyfle hefyd i gael cwmni plant yr Ysgol Sul.

# Benthyciwch! Peidiwch â Phrynu

Benthyg - (Borrow Don't buy) ydy "Llyfrgell pethe" cyntaf Cymru. Yn wir dyma'r unig un yng Nghymru hyd yma. Lle ydy hwn ichi fedru benthyg pethe nad ydach chi berchen ac hefyd sy'n cymeryd pethe ydach chi berchen ond nad oes eu hangen arnoch bellach. Mae hefyd yn le i bobl gwrdd i rannu gwybodaeth a sgiliau efo'u cymunedau.

Y syniad tu ôl i hyn ydy fod gan lawer ohonom offer garddio neu *DIY* nad ydan ni yn eu defnyddio yn rheolaidd ac efallai byth yn eu defnyddio am wahanol resymau. Mae eraill efallai yn methu fforddio prynu offer neu heb le i storio offer sydd yn cael eu defnyddio yn anaml. Felly oni fyddai yn syniad da cael "llyfrgell" gymunedol ble gellir rhoi yr offer yma fel y gellir eu benthyg pan fo'r galw.

Mae "Llyfrgelloedd Pethe" wedi bod yn mynd o nerth i nerth yn y DU ers 2015. Pob un wedi datblygu'n wahanol ond yr ethos ganolog yr un fath. Mae rhwydwaith anffurfiol i drafod syniadau ac arfer da. Bellach mae'n fodel byd eang wrth i bobl chwilio am ffyrdd i leihau gwastraff, ail ddefnyddio ac ailgylchu. Mae Benthyg yn gweithio'n agos efo'r Caffis Trwsio *(Repair Cafes)* gan mae'r un yw eu hegwyddorion craidd. Y weledigaeth yw gwneud benthyg a thrwsio mor hwylus ac ydy picio i nôl torth.

Y nôd ydy diogelu'r amgylchedd a gweithredu yn gadarnhaol i greu dyfodol glanach, iachach a mwy cynaladwy; dod â chymunedau at eu gilydd a lleihau gwastraff.

Mae dros 350 eitem ar gael a'r rhan fwyaf yn eitemau oedd yn debyg o fynd i'r lle gwastraff. Mae amrywiaeth o declynnau *DIY* a glanhau i eitemau ar gyfer anableddau, gwisgoedd gwisgo fyny ar gyfer plant a llawer mwy.

Yn ddiddorol iawn mae pob math o bobl yn defnyddio Benthyg. Un o'r eitemau mwyaf poblogaidd ydy pwll rhoi genedigaeth. Mae'n enghraifft berffaith o werth benthyg. Dyma eitem na fyddid yn ei ddefnyddio'n aml ac felly yn adnodd cymunedol y gellid ei rannu yn ôl yr angen. Meddyliwch gellir cael babis Benthyg ledled Caerdydd ac yn wir ledled Cymru.

Mae llawer o'r benthyg yn dymhorol. Yn yr haf roedd mynd ar y *gazebos* a'r peiriant llnau patio. Wedyn tua'r hydref mae galw am dorrwr gwrych, chwthwr dail a pheiriant llnau carpedi.

Mae'r bobl sy'n defnyddio Benthyg yn gwneud hynny oherwydd eu bod yn awyddus i beidio prynu offer nad oes ei angen yn aml ac hefyd yn awyddus i leihau yr ôl troed carbon. Hefyd mae llawer o bobl yn ceisio lleihau faint o " stwff" sy ganddynt.

Mae Benthyg yn cael ei redeg gan Ella Smillie, Becky Harford a Jane Booty. Y dair yn gweithio'n galed a hynny'n wirfoddol. Dydy hi ddim bob amser wedi bod yn hawdd gan ei fod yn gysyniad cymharol newydd o hyd.

Gallwch ymaelodi ar wefan borrow.benthyg.org . Gallwch bori i weld be sy ar gael i'w fenthyg a threfnu i fwcio. Does dim modd mynd i'r ganolfan chwilota ar hyn o bryd felly rhaid bwcio ar lein ac mae modd trefnu i'w nôl drwy ddull clicio a chasglu. Gallwch dalu ar lein a dewis os ydych yn ôl a dychwelyd yr eitemau fyddwch chi'n eu benthyg o'r ganolfan yn Rhymni neu Splot. Gallwch dalu trwy ddefnyddio arian, credyd amser neu drwy wirfoddoli efo Benthyg.

Os ydy pobl am gyfrannu eitemau mae angen gwneud apwyntiad drwy e-bost info@benthyg.org. Mae angen i'r eitemau fod mewn cyflwr da ac yn addas i'w benthyg. Nid ydy dodrefn yn addas.

Mae Benthyg wedi creu canllawiau y gellid eu defnyddio mewn ardaloedd eraill sy awydd creu Benthyg lleol gan obeithion am rwydwaith ledled Cymru cyn hir.

Cewch ragor o fanylion am y gwasanaeth sy ar gael yng Nghaerdydd ac hefyd am y gwaith mwy cyffredinol ar wefan borrow.benthyg.org.


**EWYLLYSIAU YN Y GYMRAEG**

**Ruth C. Jones LL.B.(Hons)**

**ruthcjones25@aol.com**

# Cwmni'r Dysgwyr

*Wyddoch chi bod sawl cyswllt rhwng Cymru â Plymouth Argyle?*

## Gwilym Dafydd



**Plymouth Argyle, Luke Jephcott a thîm pêl-droed cenedlaethol Cymru gan Matt Spry**

Dw i'n dod o Aberplym (Plymouth) a dw i'n cefnogi Plymouth Argyle ers pan o'n i'n blentyn. Mae fy nhad yn eu cefnogi ers pan oedd e'n blentyn a dechreuodd e fynd â mi i'w gweld yn chwarae pan o'n i'n tua 8 oed. Rhaid i mi ddweud nad fi yw unig gefnogwr Argyle sy'n medru'r Gymraeg. Dw i'n siŵr bod llawer ohonoch chi'n nabod Deiniol Carter sy'n cefnogi Argyle hefyd - cawson ni ein geni yn yr un ysbyty yn Aberplym! Dw i wedi clywed am foi arall yng Nghaerdydd sy'n dod o Aberplym ac sy wedi dysgu Cymraeg a gobeithio ei fod e yn cefnogi Argyle hefyd.

Ar hyn o bryd mae gennyn ni chwaraewr ifanc ardderchog, Luke Jephcott, a gafodd ei eni yn Aberystwyth cyn i'w deulu symud i Gernyw pan oedd e'n blentyn. Mae e wedi chwarae dros Gymru o dan 19 ac o dan 21 gwpl o weithiau ac mae sôn y bydd e'n cael ei ddewis ar gyfer tîm cenedlaethol Cymru cyn bo hir, efallai ar gyfer Pencampwriaeth Pêl-droed UEFA 2020, a fydd yn cael ei chynnal rhwng 11 Mehefin a 11 Gorffennaf eleni ar ôl cael ei gohirio y llynedd yn sgil Covid-19.

Mae cryn sylw wedi bod yn y wasg leol yn Aberplym ynglŷn â Jephcott a phêl-droed Cymreig a bydd mwy fyth os bydd e'n chwarae yn yr Ewros. Bydd hyn yn codi proffil tîm cenedlaethol Cymru nid yn unig yn Aberplym ond yng ngweddill Dyfnaint, yng Nghernyw, sydd â chryn nifer o gefnogwyr Argyle, a thu hwnt. Oherwydd y newyddion cyffrous hwn, ces i fy ngofyn i siarad ar raglen Radio Cymru *Ar y Marc* ym mis Chwefror a chewch chi wrando ar y sgwrs drwy ddilyn y ddolen hon: https://www.bbc.co.uk/sounds/play/p097l0pl

Wrth i mi baratoi am y sgwrs, penderfynais i wneud ychydig o ymchwil ynglŷn â chysylltiadau eraill rhwng Argyle a thîm cenedlaethol Cymru gan ddechrau gyda gêm fwyaf Argyle i mi weld, sef rownd cyn-derfynol Cwpan yr FA yn 1984, pan o'n i'n 12 oed. Am y tro cyntaf erioed, a'r unig dro hyd yma, cyrhaeddodd Argyle rownd cyn-derfynol Cwpan yr FA - gêm yn erbyn Watford yn Villa Park, Birmingham.

Es i gyda'm tad, fy mrawd hynaf a ffrind fy nhad yn ei gar. Bu bron i ni golli'r gêm oherwydd toc cyn i ni gyrraedd Birmingham ar yr M5, daeth bws llawn cefnogwyr Argyle i'n goddiweddyd a chafodd carreg ei thaflu i fyny gan olwyn y bws a chwalu ffenest flaen y car yn deilchion! Roedd rhaid i ni ddod o hyd i garej a thrwsio'r ffenest ond, diolch byth, cyrhaeddon ni'r stadiwm gydag eiliadau i fynd cyn y gic gyntaf. Afraid dweud, collodd Argyle 1-0. Edrychais i yn ôl ar y gêm a darganfod bod Cymro yn nhîm Argyle - David Phillips. Chwaraeodd e dros Argyle rhwng 1981 - 1984 cyn symud i Manchester City ac enillodd e 62 o gapiau dros Gymru rhwng 1984 - 1996.

Mae mwy fyth o gysylltiadau rhwng Argyle a thîm cenedlaethol Cymru a dyma i chi rai ohonyn nhw:
Carl Fletcher. Argyle 2009 - 2012. Cymru 2004 - 2009. 36 o gapiau. Roedd e'n rheolwr ar Argyle rhwng 2011 - 2013.
Jermaine Easter. Argyle 2007 - 2009. Cymru 2007 - 2014. 12 o gapiau.
Barrie Jones. Argyle 1964 - 1967. Cymru 1962 - 1969. 15 o gapiau. Mae fy nhad yn ei gofio yn dod i Argyle a'i wylio'n chwarae. Roedd e yn y tîm cenedlaethol cyn dod i Argyle.
Bill Short. Argyle 1946 - 1956. Cymru 1947 - 1953. 12 o gapiau.
Moses Russell. Argyle 1914 - 1930. Cymru 1912 - 1928. 23 o gapiau.

Taswn i wedi bod yn dda am chwarae pêl-droed hoffwn i fod wedi chwarae dros Argyle ac, oherwydd fy mam-gu, a gafodd ei geni yng Nghastell-Nedd, baswn i wedi bod yn gymwys i chwarae dros Gymru! Dyna gysylltiad (dychmygol) arall i chi!

*Diolch Matt – diddorol iawn. Holais Eirian os yw hi'n cofio gwylio Caerdydd ac Aberplym ar Ragfyr 26, 2009. Collodd Caerdydd 0-1 pan oedd Caerdydd yn uchel yn y tabl ac Aberplym ar y gwaelod!*

**Amser Jôc gyda Huw James**

Roedd Iolo yn byw yng Nghorris - Corris Isaf mewn gwirionedd. Penderfynodd ymfudo. Wel, oni fyddech chi? Os na allwch ateb hynny, mae'n amlwg nad ydych yn gyfarwydd â Chorris.

Ond ble i fynd? Nid oedd wedi cael addysg arbennig o dda ac nid oedd yn dda iawn mewn Daearyddiaeth. Felly penderfynodd aros nes i'r bws llyfrgell ddwywaith y mis ddod o gwmpas, y dydd Mawrth canlynol. Aeth ar fws i'r llyfrgell a benthyg yr atlas. Agorodd ef ar hap a rhoi pin i mewn - glanio ar Timbuktu. Felly dyna ni.

Bore trannoeth casglodd ei feddiannau prin a chychwyn i'r General Stores. Roedd gan Mrs Williams, General Stores, asiantaeth yng Nghorris ar gyfer Crossville Bus Company oedd yn gwerthu tocynnau bws.

"Bore da Iolo," meddai Mrs Williams General Stores. "Beth allwn ni ei wneud i chi?"

"Bore da Mrs Williams. Hoffwn gael tocyn i Timbuktu. "

"Erioed wedi clywed amdano, a bod yn onest. Ond byddaf yn edrych yn fy llyfr… "Na, ni allaf ei weld. Dywedaf wrthych beth, byddaf yn rhoi tocyn i chi i Aberystwyth a gallwch ofyn yno. "

Felly aeth Iolo i Aberystwyth a mynd at y swyddfa

docynnau yn yr Orsaf Reilffordd. Unwaith eto, ni lwyddodd y clerc i ddod o hyd i Timbuktu a chynigiodd docyn i Paddington.

Unwaith eto dim lwc a chynnig tocyn i Heathrow.

Yn Heathrow roedd yn lwcus. O leiaf roeddent wedi clywed amdano ac wedi gwerthu tocyn iddo i Khartoum. Oddi yno ar y trên ar y dechrau ac yna ar ful, fe gyrhaeddodd Timbuktu yn y pen draw.

Sefydlodd fusnes llaeth, fel y gwnewch chi, a ffynnodd. Ond ar ôl pum mlynedd roedd hiraeth arno a phenderfynodd ddychwelyd. Felly casglodd ei eiddo - yn fwy sylweddol erbyn hyn - ac aeth i'r swyddfa deithio yn Timbuktu.
"Hoffwn i docyn i Gorris."

Edrychodd y clerc arno'n chwilfrydig dros ei sbectol: "Corris, Syr? Uchaf neu Isaf? "

*Mae gyda Harri Webb gerdd ar y jôc hon, ond yn ei gerdd ef Cwmtwrch yw'r dref! (Eiry – gol)*

# Merched y Wawr Caerdydd

Wnaeth oerfel Chwefror ddim amharu ar ein taith o Abertawe i'r Riviera ar drywydd yr artist dawnus Gwenny Griffiths yng nghwmni Mari Beynon Owen. Rhannodd ei hymchwil yn ceisio dod o hyd i hanes ei hen fodryb a fu'n astudio yn Llundain a Pharis ac a oedd yn rhan o fwrlwm cymuned greadigol Fohemaidd Chelsea ochr yn ochr ag artistiaid eraill a hynny yng nghyfnod y *suffragettes*. Cawsom gip ar rai o beintiadau hyfryd Gwenny gan gynnwys portread tyner o'i ffrind Annie Swynnerton, sylfaenydd y *Manchester Society of Women Painters* ac aelod blaenllaw o'r *suffragettes*. Cynhaliawyd arddangosfeydd o waith Gwenny ar draws Ewrop a roedd galw mawr am ei gwaith, yn bennaf drwy gomisiynau preifat. Ymgartrefodd ar y Riviera mewn villa a oedd ynddi, yn ôl y sôn, ystafell wedi ei dodrefnu fel cegin Gymreig. Mae'n debyg mae yno y bu farw ym 1953 yn 86 oed. Trist nodi nad oes cofnod o'i marwolaeth a phrin iawn yw'r sylw i'w gwaith sy'n codi'r cwestiwn pam nad oes casgliad a pham fod diffyg sylw a chydnabyddiaeth i un o artistiaid amlycaf Cymru'r ugeinfed ganrif? Drwy ei gwaith ditectif llwyddodd Mari i leoli rhyw 60 o beintiadau Gwenny. Yr amcan yw dod o hyd i ragor a darganfod mwy o'i hanes. Ond hefyd oni ddylai oriel roi sylw haeddianol i waith Gwenny Griffiths gan ddathlu ei thalent ac unioni rywfaint ar y cam gafodd hi a merched eraill oedd yn artisitiad yn yr un cyfnod?

# Cymdeithas Cymru-Ariannin

Fe benderfynodd Cangen y De drefnu cwis trwy gyfrwng Zoom rhyngom ni a'r canghennau eraill ledled Cymru. Ond er mwyn sicrhau ei fod yn mynd i weithio fe gawsom gwis bach i'r Gangen ym Mis Rhagfyr, a diolch i Iwan Madog a Lois Dafydd sy'n deall cymlethdodau Zoom, fe aeth fel watsh, a rhoi hyder i ni fentro ar y gwaith o ryng-weithio gyda'r canghennau eraill.

Mae Ionawr 6ed yn ddiwrnod pwysig yng nghalendar y Wladfa. Hwn yw diwrnod y Tri Brenin (fel y mae yn Sbaen), pan yn draddodiadol y daeth y Doethion at breseb y baban Iesu gyda'u anrhegion drud. Yn yr Ariannin mi fydd plant yn gosod eu hesgidiau y tu allan i'r drws ar y noson hon gan ddisgwyl cael anrhegion gan y tri brenin.

Ac felly fe ddaethom at ein gilydd o bob rhan o Gymru i ddathlu Hen Galan, Nos Yswyllt, a Diwrnod y Tri Brenin. Roedd trefniant Iwan a Lois (gyda Mary Borda-Green yn helpu) yn ddi-lychwyn. Cawsom ein rhannu yn dimoedd, a phob tîm mewn 'ystafell' Zoom wahanol (mae'r meddalwedd hwn yn wyrthiol!) i ateb y cwestiynau a welwyd ar y sgrîn. A dyna hwyl a gawsom! Edrychwn ymlaen yn eiddgar at gysylltu â'r Wladfa ym Mis Ebrill a'r ysgolion Cymraeg yno, ac ym Mis Mai gobeithiwn gael y fraint o sgwrsio gydag Eluned Gonzales – un o hoelion wyth y Wladfa.

# Y DIGWYDDIADUR

## MAWRTH

**Gwener, 12 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Alun Ffred Jones ar y testun 'Wil Sam a'r busnes sgwennu 'ma'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. I gofrestru, cysylltwch â'r Parchg Dyfrig Lloyd (dyfriglloyd@hotmail.com).

**Gwener, 19 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Dr Alaw Mai Edwards, Golygydd Creadigol Cyhoeddiadau Barddas, ar y testun '"Yn ddrych o gyflwr diwylliant cenedl"?: golwg ar gyhoeddi barddoniaeth ddoe a heddiw'. Am 7.00pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. I gofrestru, cysylltwch â'r Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## EBRILL

**Gwener, 2 Ebrill**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Ian Gwyn Hughes ar y testun 'Cymdeithas Bêl-droed Cymru a'r Gymraeg'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. I gofrestru, cysylltwch â'r Parchg Dyfrig Lloyd (dyfriglloyd@hotmail.com).

**I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur gweler manylion ar dud. 2**

## Y Ci Aur

Stori fer gan **John Emyr**

Craffodd Osian ar y peth roedd wedi ei godi o'r ddaear yn y cae lle'r oedd Gaff ei gi wedi cael loes i'w bawen. Blwch rhydlyd oedd hwnnw, ac roedd pridd y canrifoedd yn glynu wrth ei ymylon. Ar ôl gosod y blwch ar fwrdd yn y lolfa, llwyddodd Osian i agor ei gaead. A syllodd yn gegrwth ar ei gynnwys – cerflun o gi mewn aur solet!

Ar ôl iddo ei lanhau â dŵr cynnes a sebon, gallai weld ceinder y crefftwaith. Roedd medrusrwydd y crefftwr a'i lluniodd yn sgleinio'n glir ym mhob manylyn. Clir hefyd oedd y tyllau bach du a gynrychiolai lygaid effro'r ci. Er prinned ei wybodaeth am arteffactau o'r fath, gwyddai Osian ei fod yn dal rhywbeth hen a gwerthfawr a chwbl arbennig.

'Edrych, Megan,' meddai wrth ei wraig.

'Bobol y ddaear 'ma!' meddai hithau gan fentro cyffwrdd y ci aur â chledr ei llaw mewn ystum o fwytho. Chwyrnodd Gaff i fynegi ei brotest.

'Gaff bach, paid ag edrych mor genfigennus,' meddai Osian, 'dydi o ddim yn gi byw a deallus fel ti.'

Eisteddodd Osian yn ei hoff gadair. 'Ble mae'r papur newydd, Meg?'

Cyn i Megan ateb, daeth Gaff â'r papur yn ei safn a'i osod yn llaw Osian.

'Diolch, Gaff. Rwyt ti'n well nag unrhyw gi aur.'

'Wyt ti'n cofio bod angen i ti fynd i gael dy frechlyn?' gofynnodd Megan.

'Wel iechyd annw'l, mi wnes i anghofio'n llwyr!' Cododd Osian ar ei draed i chwilio am ei esgidiau.

Wrth iddo lywio'i gar ar hyd Heol Llantrisant, sylwodd fod yna fenyw a wisgai gôt werdd yn cerdded ar y palmant gan dywys pum ci ar denynnau. Yn sicr, roedd cŵn yn greaduriaid poblogaidd y dyddiau hyn, meddyliodd, ac roedd rhai perchenogion yn fodlon talu i eraill fynd â'u cŵn am dro.

Pan gyrhaeddodd y Ganolfan Therapi yn Sblot, sylwodd fod nifer wedi cyrraedd yno o'i flaen. Parciodd ei gar yn y maes parcio yng nghefn yr adeilad ac yna ymuno â rhes o bobl oedd yn cadw'u pellter wrth giwio ger y brif fynedfa. Wedyn cafodd ei dywys i neuadd fawr gan ferch ifanc yn lifrau'r fyddin. Ar ôl iddo gael y pigiad *Pfizer*, arhosodd am chwarter awr, yn unol â'r cyfarwyddyd, cyn dychwelyd adre.

Wrth iddo agor drws y gegin, rhedodd Megan tuag ato. 'Osian, mae rhywbeth ofnadwy wedi digwydd.'

'Be?'

'Mae'r ci aur wedi diflannu!'

'Gwarchod pawb!'

'Mi es allan i'r ardd i roi dillad ar y lein. Pan ddois i nôl mewn a tharo i'r lolfa, doedd dim golwg ohono yn unman! A dim golwg o Gaff chwaith!'

'O na!' Rhedodd Osian i bob ystafell yn y tŷ. Sylwodd fod un ffenest yn y lolfa yn gilagored. Rhaid bod rhywun wedi gweld y ci aur ar y bwrdd ac wedi dringo drwy'r ffenest i'w ddwyn – a dwyn Gaff yr un pryd.

Brysiodd Osian allan i'r stryd. Brasgamu i gyfeiriad Clos Parc Radur. Chwilio'n gyflym rhwng tai newydd sbon Stryd Sils ap Siôn. Holi un o'r adeiladwyr yno, ond na, doedd hwnnw ddim wedi gweld dim byd anarferol. Dychwelyd adre ar hyd Heol Isaf.



Wrth iddo gyrraedd adre gwelai ôl traed yn y pridd y tu allan i ffenest y lolfa. 'Reit,' meddai wrth Megan, 'does dim amdani ond ffonio'r heddlu.' Pan gyrhaeddodd y warden cŵn, roedd y prynhawn yn dechrau llithro i'r hwyr. Ochneidiodd Osian. Pa obaith oedd i'r warden ddod o hyd i'w gi? Erbyn hyn byddai Gaff yn nadu'n druenus mewn ysgubor bellennig, a'r ci aur yn disgwyl prynwr yn un o stordai'r farchnad gudd.

'Faint o'r gloch oedd hi pan ddigwyddodd y lladrad?' holodd y warden.

'Tua chanol y pnawn,' atebodd Megan, 'roedd gan Osian apwyntiad yn Sblot i dderbyn ei frechlyn am chwarter wedi tri.'

Yn sydyn, a'r tri yn sefyll y tu allan i'r tŷ, cerddodd rhywun tuag atyn nhw: gwraig a wisgai gôt werdd. Roedd Osian yn ei hadnabod ar unwaith. Hon oedd y fenyw a welodd yn gynharach yn mynd â'r pum ci am dro.

'Beth sy'n bod?' holodd y fenyw.

'Wedi colli'n ci ydan ni,' meddai Megan. Tybiai mai gwell oedd peidio sôn am y ci aur.

'Wel rhyfedd i chi sôn,' meddai'r fenyw, 'fe weles i gi heddi, prynhawn 'ma, wrth fynd â'r cŵn am dro.'

'Dwedwch fwy.'

'Yn y cae ger y tir braenar oedden ni.'

'Sut gi oedd o?'

'Blew brown o'dd ganddo fe. Ro'dd e'n crafu'r pridd 'da'i bawenne. Cuddio asgwrn, fi'n credu.'

Daeth gobaith yn ôl i lais Osian. 'Dewch inni weld.'

Dechreuodd y pedwar gerdded i gyfeiriad y tir braenar. Ac wrth iddyn nhw agosáu at y cwrs golff, fe welen nhw gysgod ger un o'r gwrychoedd. Symudai'r cysgod yn araf tuag atyn nhw.

'Gaff ydi o!' meddai Osian yn gynhyrfus. Rhedodd y llamgi tuag atyn nhw. Roedd pawb wrth eu bodd a Gaff yn ymhyfrydu yn eu croeso.

'Ond,' meddai Osian ymhen rhai munudau, 'ble mae'r ci aur? Be ddigwyddodd i hwnnw?'

Ciledrychodd Gaff i wyneb ei feistr.

'Gaff, wyt ti'n euog?'

Gostyngodd Gaff ei ben.

'Ble mae'r ci aur, Gaff?'

Dim smic.

'Tyrd i ddangos inni.'

Erbyn iddyn nhw ddilyn Gaff at y tir braenar, roedd y nos bron â'u goddiweddyd. Dyma'r ci clyfar yn closio at bentwr bach o bridd. Ar frig y pentwr, roedd darn o rywbeth melyn, a hwnnw bron â bod o'r golwg yn y pridd. Plygodd Osian i'w godi. A syllodd pawb mewn rhyfeddod wrth weld yn ei law, yn disgleirio yng ngweddillion goleuni'r cyfnos, brif wrthwynebydd Gaff – y ci aur.

# Pobol y Rhigwm

Croeso i gornel Pobol y Rhigwm unwaith eto.

Y dasg y tro diwethaf (Tasg 40) oedd llunio limrig yn cynnwys y llinell:

*Bydd angen gofalu amdanaf/amdano/amdani.*

Daeth cannoedd o gynigion i law, ond gan fod gofod yn brin iawn yn y rhifyn hwn, dim ond y buddugol a gyhoeddir.

Fe sylwais fod Huwcyn yn cwyno
’Rôl blwyddyn ryfeddol o Zoomo;
Mae’n siarad â’r ci
Yn hytrach na fi!
Bydd angen gofalu amdano!

*Pero*

Ydy, mae Pero’n crynhoi teimlad llawer ohonom a fu’n gweithio gartref ac yn cyfarfota drwy Zoom neu lwyfan electronig tebyg. Llongyfarchiadau iddo/iddi ac mae’n llawn haeddu’r wobr gyntaf.

**Enillydd tasg rhif 40 yw**
**Gwen Emyr, Radur**

**Y dasg erbyn y tro nesaf yw llunio cyfarchiad i unrhyw wleidydd.**

Gall fod yn bennill, yn limrig, yn englyn neu’n ebychiad o unrhyw fath.
Cadwer at iaith weddus.
Anfonwch eich cynigion yn ôl yr arfer at bryan.val.james@gmail.com **erbyn 20 Mawrth.**

*Emyr Davies*

# CLWB PÊL-DROED DINAS CAERDYDD

Mae amseriad ysgrifennu’r erthygl yma yn wych. Mae Caerdydd newydd guro Bournemouth o ddwy gôl i un ac felly rydym yn y chweched safle am y tro cyntaf eleni. Mae’n anodd deall hyn. I'r rhai sydd ddim yn talu sylw i bêl-droed mae lle gyda ni yn y gemau ail gyfle, ar hyn o bryd, felly, mae cyfle i ddychwelyd i'r Uwch Gynghrair unwaith eto.

Sut mae hyn wedi digwydd? Mae Keiffer Moore wedi bod yn wych. Mae Josh Murphy yn dangos pam ein bod ni wedi talu arian mawr amdano. Mae Harri Wilson yn cynnig safon, mae Will Vaulks yn cynnig gwaith a thafliad hir. Dwi’n dwlu ar dafliad hir da. Mae tri amddiffynnwr canol gyda ni, a dau gefnwr go iawn ar yr esgyll am y tro cyntaf ers blynyddoedd. Fel mae Mick Mcarthy yn dweud “pegiau crwn mewn tyllau crwn” ac efallai dyna’r ateb. Rheolwr newydd, profiadol tu hwnt, sydd yn nabod y chwaraewyr ac yn gwybod beth maen nhw’n gallu’i wneud. Mae e wedi creu argraff gan wrthod chwarae sêr fel Harri Wilson a Sean Morrison os nad ydynt yn gweithio yn ddigon caled wrth ymarfer. Chwarae teg. Mae Mick heb golli gêm cyn belled. Rydym wedi ennill chwe gêm yn olynnol!


Nawr, dwi wedi gwneud hi! Os rych chi'n breuddwydio fod llwyddiant yn bosib, rych chi'n gallu bod yn siŵr fod pethau’n mynd i fynd o chwith. Colli i Neil Warnocks Middlesborough yn y gêm nesa efallai? Pryd ydyn ni’n chwarae Abertawe eto? Mae’n hen bryd i ni gael gêm dda yn eu herbyn nhw. Byddwch chi’n gwybod yr atebion erbyn darllen hwn.

*Steffan Webb*


# Stori Eglwys Highfields


Yn Monthermer Road, Cathays, gwelir canolfan Eglwys Highfields, eglwys leol y bydd nifer o ddarllenwyr y *Dinesydd* yn gyfarwydd â hi. Yn y llyfr newydd hwn, *The Story of Highfields with Interviews*, cyflwynir hanes yr eglwys dros gyfnod o 35 mlynedd. Olrheinir ei thwf a’i datblygiad gan amlinellu ei natur a’i chymeriad, e.e., ei phwyslais ar waith cenhadol. Mae rhan helaeth o’r gyfrol 203 tudalen yn cynnwys cyfweliadau gyda nifer o aelodau’r eglwys ynghyd ag ambell atgof ar ffurf ysgrif. Golygwyd y gyfrol gan John Emyr.

Gellir cael copi o’r llyfr yn ddi-dâl drwy gysylltu â Books Plus, cardiff@books-plus.org.uk neu drwy Eglwys Highfields, office@highfieldschurch.org.uk. Os dymunir gwneud cyfraniad ariannol, fe’i derbynnir yn ddiolchgar. Bydd pob cyfraniad yn mynd tuag at y Gronfa Genhadol a’r Gronfa Etifeddiaeth a ddefnyddir i hyfforddi gweithwyr Cristnogol.



## Rhif: 211



### Ar Draws
1. Mae'r calla yn osgoi hwn (4)
8. Llifa'r mynydd i'r lle hwn (10)
9. Pryna hwn cyn yr hwyr (8)
10. Mae lle i sychu yn rhan o hanfod ynys (4)
12. '----- ----- a fodlonodd gyfiawnder,
    Daenellwyd ar orsedd ein Duw' (DC) (1,5)
14. Dianghenraid bod ag ofn yn Lloegr (6)
15. 'Mae dy ----- trwy'r greadigaeth
    Tyrd am hynny maes o law' (WW) (6)
17. Bodloni y perffaith a thro pedol (6)
18. Afon o'r ffin (4)
19. Arian aur (8)
21. 'Cofia'n gwlad, Benllywydd tirion,
    Dy ----- fyddo'i grym' (HEL) (10)
22. Bod a dychryn mynd i Fôn (4)

### I Lawr
2. Mae grugiar heb ben iach a hon yn gymysgedd didostur (10)
3. …… ac eglwys tu fas (4)
4. Ffwdana ynghylch yr aflwydd (6)
5. Gwell Dad na Mam i ddal hon yn ôl (6)
6. 'Duw'n darpar o hyd at raid -----
   Yw'n cysur i gyd, a'n cymorth i fyw' (5-3)
7. Cywasgu llenorion wna hwn (4)
11. 'Dros Gymru'n gwlad, O! Dad, dyrchafwn gri,
    ----- ----- ----- a roed i'n gofal ni' (LV) (1,6,3)
13. A ddaw arian o fod yn wyllt (8)
16. Un dan hyfforddiant yn dechrau dangos ysbryd synhwyrol gydol wythnos ryngwladol (6)
17. O'r difrod tynnwyd cefn y car ddechrau Ionawr a'i ddistrywio am byth (6)
18. Un ystym mewn oes o glod ar yn ail (4)
20. Ar ddi-hun wedi'r ffraeo digalon efallai (4)

**Enillydd Croesair Rhif 209**

**Tom Roberts, Rhosmeirch, Ynys Môn**

**Atebion Croesair Rhif 209**

**Ar Draws:** 1. Clindarddach 2. Anfri 8. Llawenydd 10. Uno'n y gân 11.Efydd 13. Dilladu 15. Ystryw 17. Roed 18. Ysgymuno 21. A'r gwair 222. Stori 23. Yn flynyddol

**I Lawr:** 1. Cofio 2. Ieithydd da 3. Dulliau 4. Riwl 5. Annifyr 6. Hapus Dyrfa 9. Ddydd i'w gofio 12. Esgyll sydd 14. Lloergan 16. Estron 19. Unodl 20. Dail

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Ebrill, 2020
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

---

## Côr Meibion Taf

### *Heno pan fo'r byd yn fflam*

A hithau'n 80 mlynedd union ers i Abertawe ddioddef ymgyrch fomio'r Almaenwyr (19 – 21 Chwefror 1941), aeth Côr Meibion Taf ati i goffâu'r gyflafan drwy recordio fideo 'Y Tangnefeddwyr' . Mae'r darn yn cofnodi erchylltra'r digwyddiad hwnnw, geiriau ysbrydoledig Waldo wedi'u priodi â cherddoriaeth anthemig Eric Jones.

Mae'r aelodau'n hen gyfarwydd â rhith recordio erbyn hyn yn dilyn prosiectau llwyddiannus tebyg wrth greu fideos 'Deus Salutis', 'Seren Nadolig', 'O Tannenbaum' a 'Daw Haul ar Fryn'. Bu'r ymateb ar y cyfryngau cymdeithasol yn ffafriol dros ben ac yn hwb mawr i'r côr mewn dyddiau blin. Felly, trowch chithau at ein gwefan cormeibiontaf.cymru wrth ddwyn i gof ddigwyddiadau pedwar ugain mlynedd yn ôl.

Os yw'r arlwy'n apelio at y dynion yn eich plith, mae'n adeg hynod amserol i ystyried ymuno â Chôr Meibion Taf yn eu rhith ymarferion ar nos Sul – beth am droi i mewn i wrando y tro cyntaf? Nos Sul 14 Mawrth, bydd yr arweinydd, Steffan Jones a'r cyfeilydd Lowri Guy yn dechrau dysgu darn newydd i'r aelodau sef 'Corws yr Helwyr' gan Weber. Beth sy'n braf gyda'r rhith ymarferion hyn yw nad oes neb arall yn eich clywed! Felly beth amdani?

Rhodri Jones(Cadeirydd) 07770559961
Colin Williams (Ysgrifennydd) 07768900738

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

Mae blwyddyn wedi hedfan ers lawnsiad Huw Aled Accountants. Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth.

1. Rydym wedi darparu cyngor treth i'n cleientiaid ar nifer o faterion, ond yn ddiweddar, cawsom gyfnod o 48 awr o drafodion anarferol yn ein cyrraedd ni, gan gynnwys:
   - Cynghori meddyg ar daliadau treth sy'n codi ar ôl mynd dros lwfansau pensiynau blynyddol a lwfansau oes.
   - Asesu treth etifeddiaeth oedd yn ddyledus ar rodd tu fewn i ymddiriedolaeth teuluol.
   - Cyfrifo treth ar eiddo o werthiant portffolio cymhleth o gyfranddaliadau.
   - Cysylltu â chyfreithiwr o'r Eidal ynghylch tŷ rhent dinesydd Prydeinig ymadawedig yn Rhufain.
   - Gwerthuso a oedd ceir newydd oedd wedi cael eu defnyddio fel ceir arddangos yn dal i fod yn gymwys i gael lwfansau cyfalaf llawn.
   - Trefnu gwerthu tŷ pâr priod yng Nghaerdydd wedi iddynt farw, lle mae buddiolwyr yr ystâd yn byw tramor.
   - Hawlio rhyddhad treth etifeddiaeth ar ystâd pâr lle roeddynt yn gadael y cartref teuluol i'w plant, gan alluogi'r ystâd i dderbyn hyd at £1,000,000 heb unrhyw dreth etifeddiaeth.

2 Mae Llywodraeth Cymru wedi ail-agor nifer o gronfeydd cymorth ariannol yn sgîl ymestyn cyfyngiadau Covid-19, gan gynnwys y Gronfa Adferiad Diwylliannol a'r Grantiau Dewisol Lleol sydd ar gael oddi wrth awdurdodau lleol.

Ewch i wefan Busnes Cymru am fwy o fanylion:
https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/estyniad-y-cronfa-i-fusnesau-dan-gyfyngiadau

**Cwestiynau Huw ac Aled:** A allwch chi ddarparu rhywfaint o wybodaeth am fuddsoddi moesegol a beth yw ystyr "ESG"?

Diffiniad buddsoddi moesegol yw pan fydd unigolyn neu sefydliad yn dewis buddsoddi mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'u hegwyddorion moesegol, trwy fuddsoddiad ar y cyd fel ISA neu bensiwn. Mae hyn yn golygu na fydd y gronfa'n buddsoddi mewn diwydiannau fel arfau, tybaco, gamblo a phornograffi.

Mae ESG, neu ACLl yn y Gymraeg, yn sefyll am "amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu" ac mae'n sicrhau bod buddsoddiadau'n cael eu gwneud mewn cwmnïau sydd ag ymwybyddiaeth amgylcheddol gref, sy'n gyfrifol yn gymdeithasol ac sydd â gweithdrefnau llywodraethu cadarn ar waith.

*Am fwy o fanylion, cysylltwch â ni trwy:*
*www.huwaledaccountants.com neu 029 2069 4524.*

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

### Tyfiant Hydrogen yng Nghymru

Ar Nos Lun 15fed o Chwefror 2021 cawsom sgwrs ddiddorol iawn gan Guto Owen am Dyfiant Hydrogen yng Nghymru. Mae Guto yn cynrychioli Cymdeithas Fasnach Hydrogen Cymru sydd yn bwriadu cynyddu'r defnydd o nwy Hydrogen i gynhyrchu egni yng Nghymru. Mae Guto yn pwysleisio nad oes galw am ddyfeisio technoleg newydd, dim ond gwneud gwell defnydd o'r hyn sydd ar gael yn barod. Mae'r gell danwydd Hydrogen a ddyfeisiwyd gan y Cymro, William Grove o Abertawe ym 1842 yn rhan allweddol o'r dechnoleg yma.

Soniodd Guto fel roedd llawer o'r isadeiledd angenrheidiol i ddefnyddio hydrogen fel tanwydd ar gael nawr. Mae y pibellau newydd plastig sy'n cario nwy naturiol i'n tai hefyd yn addas i gludo hydrogen, ac mae cwmni Worcester-Bosch yn gwneud gwresogydd dŵr sy'n gweithio ar hydrogen. Mae car glân sy'n rhedeg ar hydrogen yn cael ei gynhyrchu gan gwmni Riversimple yn Llandrindod ac mae'r cwmni Hanson UK wedi cydweithio gyda Phrifysgol Abertawe i ddatblygu teclyn o'r enw *Electrolyser* sy'n defnyddio egni o'r haul a'r gwynt i gynhyrchu hydrogen fel tanwydd.

Yn ogystal â'r dechnoleg anhygoel yma, mae nifer o gynlluniau i symud diwydiannau traddodiadol oddi wrth eu dibyniaeth ar danwyddau ffosil ar hyd draffordd yr M4 er enghraifft. Yn Aberdaugleddau mae cynllun 'Energy Kingdom' yn bwriadu cynyddu defnydd y porthladd o egni hydrogen a ffynonellau adnewyddadwy eraill. Yn y Gogledd ceir cynllun Ynys Môn - Ynys Hydrogen sy'n gynllun peilot i annog y defnydd o hydrogen ar yr ynys.

I gloi, mae Llywodraeth Cymru newydd gyhoeddi Dogfen Ymgynghorol ar Hydrogen yng Nghymru (gweler y cyfeiriad gwe isod); a'r dyddiad cau am sylwadau ar y cynllun cynhwysfawr yma yw 9fed o Ebrill.

Ewch ati i gyfrannu sylwadau nawr!
https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-01/hydrogen-yng-nghymru-dogfen-ymgynghori.pdf

# Dyfodol Tŷ’r Cymry yn y Fantol

Mae gan Wayne Pivac (hyfforddwr tîm Rygbi Cymru) broblem! Wrth gadw un llygad ar ornest y Chwe Gwlad (y nod byr-dymor) a’r llall ar Gwpan y Byd (y nod hir-dymor), ydy e’n dewis tîm cyfan o’r hen ffyddloniaid neu ydy e’n mentro dewis tîm ifancach, dawnus a hyderus ond llai profiadol?

Rwy’n un o dri Ymddiriedolwr Tŷ’r Cymry ac mae’r amser wedi dod i ni wneud penderfyniadau pwysig ynglŷn â dyfodol yr adeilad a’r sefydliad hwn. Gwyddys ers tro fod dyddiau gorau Tŷ’r Cymry yn ei ffurf bresennol wedi mynd heibio ond, yn anffodus, nid oes unrhyw beth wedi’i wneud i unioni’r sefyllfa nag i gynllunio olyniaeth. Erbyn hyn mae’n unfed awr ar ddeg ac mae’n rhaid penderfynu beth i’w wneud. Mewn cyfarfod ym mis Ionawr eleni, penderfyniad yr Ymddiriedolwyr, y to hŷn, profiadol, oedd mynd am y nod byr-dymor a gwerthu’r adeilad. Gwnaed hyn er bod criw o bobl ifancach, dawnus ac ymroddedig (y ‘To Newydd’) – yn awyddus i helpu ac i gynnig datblygiad hir-dymor i’r sefydliad.

Fel gyda problem Wayne Pivac, mae ’na ddwy ffordd o edrych arni. Gan fod y mater yn bwnc trafod cyhoeddus i raddau yn y wasg Gymraeg, dwi’n teimlo ei bod yn bwysig i’r gymuned gael gwybod ychydig o hanes Tŷ’r Cymry er mwyn rhoi rhyw fath o gyd-destun i’r drafodaeth. Ar ddiwedd yr erthygl hon rwyf hefyd yn sôn yn fyr am y gwahanol opsiynau sydd ar gael.

**Ychydig o hanes y Tŷ**

Dyma ran o bapur a ysgrifennwyd gan y diweddar Cen Williams yn 2012 pan oedd saith Ymddiriedolwr, yn cynnwys Cen ar bwyllgor Tŷ’r Cymry. Mae’n cyfeirio at gyfraniad y Tŷ i addysg, gwleidyddiaeth, diwylliant Cymraeg a Christnogaeth. Bu farw Cen y llynedd – un o gymwynaswyr y gymuned Gymraeg yng Nghaerdydd a thu hwnt. Coffa da amdano.

*Y bwriad gwreiddiol*

Rhodd i Gymry Cymraeg Caerdydd oedd Tŷ'r Cymry gan Lewis Williams o'r Barri ym 1936. Ei fwriad oedd darparu lle i Gymry Cymraeg ymgynnull, i fudiadau Cymreig gyfarfod i hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant ac i weithio tuag at ‘statws dominiwn Cymraeg’ i Gymru.

*Symbyliad i sefydlu ysgolion Cymraeg yng Nghaerdydd*

Mae pwysigrwydd Tŷ'r Cymry yn hanes Cymry Cymraeg Caerdydd yn enfawr. Yn Nhŷ'r Cymry y gwelwyd y cynnig cyntaf i sefydlu ysgol Gymraeg ei chyfrwng yn yr ardaloedd Seisnigedig. Ym 1937-38 roedd Gwyn Daniel ac eraill ar fin sefydlu'r ysgol yn y Tŷ. Ni sefydlwyd hi ar y pryd oherwydd bod y rhyfel yn nesáu ac i Arglwydd Faer Caerdydd fynnu mai cyfrifoldeb pwyllgor addysg y ddinas oedd sefydlu pob ysgol. Heb argoel am ysgol Gymraeg, penderfynodd criw Tŷ'r Cymry sefydlu Ysgol Gymraeg fore Sadwrn yn y Tŷ. Ym 1943 oedd hynny ac er iddi ddirwyn i ben ym 1947 bu'n symbyliad i sefydlu ysgolion tebyg. Roedd nifer o blant Ysgol Tŷ'r Cymry yn blant *cyntaf Ysgol Gynradd Gymraeg Caerdydd ym 1949.*

“….ac eithrio'r Ysgol Sul, yn Nhŷ'r Cymry y cefais yr ychydig addysg Gymraeg yn fy mhlentyndod.” Nia Royles

*Cartref gwreiddiol UCAC*

Roedd y Tŷ wedi datblygu'n ganolfan i ddegau o athrawon hyd yn oed cyn diwedd y tridegau ac yno y sefydlwyd UCAC ym 1940. Y Llywydd oedd Dr Gwenan Jones, Aberystwyth, yr Is-Lywydd, D J Williams, Abergwaun, yr Ysgrifennydd Cyffredinol oedd Gwyn Daniel. Hywel J Thomas oedd y Trysorydd a Victor Hampson-Jones oedd Ysgrifennydd yr Adran Gyfraith.

“Ni fyddai UCAC yn bodoli oni bai am Dŷ’r Cymry.” Gruff Hughes, cyn Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC

*Cartref Uwch Adran yr Urdd*

Bu Nia ac Ethni yn cynnal Uwch Adran yr Urdd bob nos Wener – adran a ddechreuwyd gan eu tad, Gwyn Daniel, yn y tridegau cynnar. Bu Tŷ’r Cymry yn fwrlwm o weithgareddau gyda Cymdeithas Tŷ’r Cymry yn cynnal gweithgareddau amrywiol am ddegawdau. Sefydlwyd tîm pêl-droed yno ac enillodd Côr Cydadrodd Tŷ'r Cymry yn yr Eisteddfod Genedlaethol bum mlynedd o'r bron. Rhoddwyd y gorau iddi pan ddyfarnodd y beirniad 99/100 o farciau iddo ac awgrymu mai teg fyddai rhoi cyfle i eraill yn y dyfodol!

“Rwy’n cofio’r ystafell fawr yn orlawn hyd y drws bob nos Sul am wyth.” Gwilym Roberts

*Cychwyn yr ysgol feithrin*

Roedd Gwilym Roberts, fel Owen John Thomas, yn rhan o sefydlu'r ysgol feithrin gyntaf yng Nghaerdydd. Yn festri hen Eglwys y Crwys oedd hynny, ond cyn hir symudodd i Dŷ'r Cymry.

*Cartref cyntaf yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg*

Y Dr E Wyn James a arweiniai Eglwys Efengylaidd Gymraeg pan oedd yn cynnal ei hoedfaon yn Nhŷ'r Cymry. "Cawsom hwylustod a chefnogaeth i gynnal ein cyrddau yn y Tŷ." meddai. "Tyfu wnaethom ni fel cynulleidfa yn Nhŷ'r Cymry nes i'r ystafell fynd yn rhy fach inni."

*Cartref Cymdeithas yr Iaith*

Bu Cymdeithas yr Iaith yn y Tŷ am dros 30 mlynedd. Am flynyddoedd roedd waliau Tŷ'r Cymry wedi eu papuro â thoriadau o bapurau newydd yn olrhain gweithgarwch aelodau'r Gell.

*Man cychwyn Menter Caerdydd*

Bu’r Gell yn gyfrifol am drefnu dosbarthiadau dysgwyr fyrdd ar ddiwedd yr wythdegau ac yn y nawdegau. Cynhelid chwe dosbarth yr wythnos ar gyfer gwahanol lefelau o ddysgwyr ac roedd ugeiniau yn cofrestru ar ddechrau pob tymor. Yno y dechreuodd Menter Iaith Caerdydd, dan ofal Gareth Kiff.

*Pencadlys ‘Ymgyrch Senedd i Gymru’*

Alan Jobbins oedd olynydd John Osmond a Robin Reeves yn y swydd o Ysgrifennydd Ymgyrch Senedd i Gymru. Tŷ'r Cymry oedd pencadlys yr Ymgyrch am tua degawd ac oddi yno y trefnwyd y frwydr amhleidiol gan drefnu cyfarfodydd a dosbarthu cannoedd o filoedd o daflenni.

“Roedd gan Dŷ'r Cymry ei le yn y frwydr i ennill inni'r Senedd.” Alan Jobbins

*Swyddfa Etholaeth Owen John Thomas AC*

Gweithiai Owen John Thomas yn ddiflino dros ffyniant y Gymraeg yng Nghaerdydd am dros ddeugain mlynedd, ac yn dilyn ei ethol fel aelod o Gynulliad Cymru bu’n defnyddio ystafell yn Nhŷ’r Cymry fel ei swyddfa etholaeth. Yn ystod y cyfnod hyn ef oedd prif noddwr Tŷ'r Cymry.

**Pa ddyfodol? Beth yw'r dewis?**

Ers 2012, pan ysgrifennwyd y papur uchod, mae'r sefyllfa wedi newid cryn dipyn. Fe ddaeth Cymdeithas Tŷ'r Cymry i ben oherwydd diffyg cefnogaeth, a'r prif ddefnydd a wnaed o'r adeilad yw ei logi i amrywiol fudiadau. Dyw'r rhent a enillir ddim yn ddigon i gynnal a chadw'r adeilad ac mae ei gyflwr wedi dirywio. Beth, felly, yw'r bennod nesaf yn hanes y Tŷ'r Cymry?

Yn ei gyflwyniad i'w bapur yn 2012 mae Cen yn dweud hyn: "Mae'n amlwg bellach fod natur Tŷ'r Cymry, y defnydd a wneir ohono a'i gyfraniad i'r gymdeithas Gymraeg yng Nghaerdydd wedi newid dros y blynyddoedd a bellach mae'n amlwg fod yn rhaid i ni, fel Ymddiriedolwyr Tŷ'r Cymry, wynebu cyfrifoldebau ac ymateb i her y dyfodol."

**Opsiwn gwerthu – ond dau nod gwahanol**

Y casgliad y daeth Cen iddo oedd mai'r opsiwn mwyaf cyfleus fyddai gwerthu'r tŷ gan ystyried bod pob opsiwn arall yn 'gyfyng iawn'. Ond mae llawer o bethau wedi newid ers hynny, yn cynnwys natur ac amgylchiadau'r farchnad dai, natur ac arferion byd gwaith ac, yn gymaint â dim, mae toreth o grantiau ar gael erbyn hyn a fyddai'n berthnasol i sefyllfa Tŷ'r Cymry. Dyw'r 'opsiynau eraill' ddim mor gyfyng erbyn hyn ac maen nhw'n sicr yn werth eu hystyried.

Roedd Cen yn gweld gwerthu'r tŷ, nid fel 'y diwedd' ond fel 'dechrau newydd'! Mae'n awgrymu y byddai'r pwyllgor o Ymddiriedolwyr yn parhau i weithredu – ond mewn rôl wahanol. Byddai'r Ymddiriedolwyr yn buddsoddi'r elw a gaed o'r gwerthu a defnyddio'r llog i gefnogi amrywiol elusennau a mudiadau Cymraeg. Byddai'r Pwyllgor yn gwahodd ceisiadau am gymorth ac yn cyfarfod yn rheolaidd i ddyrannu rhoddion. Hyd yn oed bryd hynny roedd Cen yn gweld y byddai angen "Gwahodd Ymddiriedolwyr newydd gydag arbenigedd mewn meysydd perthnasol." Mae'n cloi ei bapur fel hyn: "Nid cloi drws Tŷ'r Cymry fyddwn ni ond agor drws Tŷ'r Cymry led y pen i ddyfodol newydd – cyffrous a heriol – ymlaen!" Teimlaf fod y geiriau hyn yn agos at syniad gwreiddiol Lewis Williams o weithio tuag at "statws dominiwn Cymraeg" i Gymru.

Mae'r cynllun gwerthu uchod yn wahanol iawn i benderfyniad yr Ymddiriedolwyr presennol i werthu'r tŷ mewn ocsiwn a dosbarthu'r elw i sefydliadau cefnogol i'r Gymraeg – a dyna fyddai'r diwedd ar Tŷ'r Cymry. Rhaid cydnabod y byddai'r arian a gaed o werthu'r adeilad yn debygol o fod tua 25% yn llai na gwerth y tŷ oherwydd treuliau gwerthu a'r dreth enillion cyfalaf – a hynny ar adeg pryd y byddai cyfyngiadau Covid-19 yn debygol o olygu pris llai na gwir werth y tŷ.

**Y prif opsiwn arall sydd ar gael**

Dyma, yn fras, yr hyn a gynigiwyd gan ~~y~~ grŵp y 'To Newydd', ond un syniad yn unig ydy hyn a mater i'r Ymddiriedolwyr fyddai ~~i~~ ystyried y sefyllfa a chytuno ar y ffordd orau ymlaen.

Yn gyntaf oll byddai angen i'r pwyllgor fabwysiadu aelodau newydd i fod yn Ymddiriedolwyr. Mae hyn yn broses arferol pan fo nifer aelodau pwyllgor yn lleihau, fel yn achos Ty'r Cymry.

Wedyn, y bwriad fyddai sefydlu gweithgor o bobl broffesiynol i ddatblygu 'canolfan waith ddigidol' – rhyw fath o 'hyb' – ar gyfer y gymuned Gymraeg, yn fyfyrwyr a chwmnïau bychain. Gellid hyd yn oed ystyried rhan o'r tŷ fel llety hunan-gynhaliol. Hyn oll yn dod ag elw ariannol i'r Tŷ yn ogystal â bwrlwm o weithgaredd.

Er mwyn gwireddu hyn oll, byddai angen ymgyrch codi arian, yn cynnwys mynd ar ôl grantiau. Mae'r criw newydd yn ffyddiog y gellid gwneud hyn. Ond ar ddiwedd y dydd, os na ellir gwireddu'r freuddwyd, gellid wastad fynd yn ôl at yr opsiwn o werthu – fersiwn y pwyllgor presennol.

**I gloi**

Yr hyn sy'n drueni yn y sefyllfa hon yw bod criw o bobl o genhedlaeth ifancach, sef y To Newydd, galluog ac ymroddedig, unwaith y clywyd am y bwriad i werthu, wedi dod ymlaen i gynnig cymorth i'r Ymddiriedolwyr presennol gyda syniadau ymarferol i sicrhau dyfodol ffyniannus i'r Tŷ. Ond cawsant eu gwrthod wedi ychydig iawn o drafodaeth, fel petai'r mater eisoes wedi ei benderfynu – a hynny, mae'n ymddangos, heb ddim neu ond ychydig iawn o ymgynghori proffesiynol ar yr egwyddor a'r dull o weithredu'r syniadiadau a gwerthu.

Teimlaf reidrwydd i ddwyn y mater ger bron cymuned Gymraeg Caerdydd – y bobl y rhoddwyd y Tŷ iddyn nhw yn y lle cyntaf. Os hoffech gynnig unrhyw sylw ar y mater, neu awgrymu syniadau gwahanol, mae croeso i chi eu hanfon i wefan y Dinesydd – www.dinesydd.cymru

*[Gweler hefyd y llythyr oddi wrth Steve Blundell ar dudalen 11 ]*

*Arthur Evans*

## Avanti yn chwilio am deuluoedd

Dwi'n dal yn chwilio am deuloedd neu ffrindie i fod yn rhan o gynulleidfa rithiol ar gyfer ein cyfres deledu Jonathan ar S4C. Yn syml, beth sy rhaid neud i gyflawni hyn yw cwrdd â fi ar Zoom ac fe geith yr holl recordio ei wneud o fana mewn llai na 10 munud.

Cysylltwch â deiniol@avantimedia.tv! Sdim rhaid i chi weud dim byd ond dilyn fy nghyfarwyddyd ar eich cyfer.



# Bwyd Merch y Ddinas

*"y gegin oedd fy hafan mewn argyfwng"*

Lowri Haf Cooke



## Cinio Cyflym Pasta Pronto



Fe alla i gyfri ar un law faint o 'tec-awes' i mi'u harchebu dros y flwyddyn ddwetha. Fel y gwyddoch o fy ngholofnau ryseitiau diweddar, y gegin oedd fy hafan mewn argyfwng. Yn wir, wedi blynyddoedd o sgrifennu ar ddesg fy stafell fyw, gwn mai llesol yw'r cam o roi'r gwaith i'r naill ochr, ac estyn am gynhwysion i'w coginio. Mae'r holl broses, o dorri a throelli ac arogli yn creu archwaeth ac yn ymlacio'r ymennydd. Ond wrth gwrs, nid pawb sy'n gwirioni 'run fath.

Wrth i fwytai orfod cau, cynyddu'n aruthrol wnaeth y defnydd o wasanaethau 'pryd ar glud' i ddiwallu'r galw anferthol am fwyd 'parod' o ansawdd bwyty. Rych chi'n siwr o fod yn gyfarwydd â gwasanaethau fel *Deliveroo,* sy'n cynnig gwasanaeth cludo bwyd i gwsmeriaid ar ran bwytai amrywiol, a hynny am gomisiwn sylweddol. Cyhoeddodd wasanaeth arall *Uber Eats* gynydd o 150% rhwng Medi 2019-Medi 2020, tra ym mis Hydref y llynedd derbyniodd *Just Eat* archebion gwerth £17 miliwn, i gymharu â chyfanswm o £10 miliwn yn Ionawr 2019. A thra bu strydoedd Caerdydd yn dawelach dros y flwyddyn a fu, bu'r ffyrdd yn llawn gyrrwyr a seiclwyr pryd-ar-glud. Sylwais ar nifer ohonynt yn ymgasglu'n gyson i sgwrsio yng nghysgod cofeb Aneurin Bevan.

Fy ngreddf i bob tro yw cefnogi cwmniau lleol, annibynnol, a dwi'n falch iawn i ddweud fod na nifer o gwmnïau dinesig sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg yn gweini bwyd 'tec-awe' wrth i'r 'clo mawr' diweddaraf barhau. Yn eu plith, bwytai rhyngwladol Treganna fel *Bangkok Cafe* a *La Cuina* – mae Tamsin Ramasut a Montserrat Prat ill dwy yn siaradwyr Cymraeg, ac ymysg rheolwyr bwytai uchaf eu parch y brifddinas. Am ginio Sul arbennig iawn, trowch at *Thomas* by Tom Simmonds – roedd ciw mawr o archebwyr yn aros yn amyneddgar o flaen y bwyty ym Mhontcanna ddiwedd mis Chwefror, ac mae wastad yn braf clywed acen Gymraeg Sir Benfro Tom a Lois y perchnogion. Ac am brofiad mwy hamddenol, mae pizzas Jez a Ieu o gwmni *Ffwrnes* a *West Pizza* yn ardderchog - a cofiwch hefyd ddechrau sgwrs yn y Gymraeg â Phil Lewis, pan archebwch o gwmni *Dusty Knuckle*.

Ond ar noson gêm Cymru v Lloegr, toc cyn dathliadau cenedlaethol Gŵyl Ddewi, trois at gwmni o Barc Fictoria, *Pasta Pronto*. James Gibbs yw'r cogydd-berchennog, yn wreiddiol o Dreganna, a Thresimwn ym Mro Morgannwg; yn gyn-ddisgybl Ysgol Glantaf, bu'n byw ym Malaysia am flynyddoedd lawer cyn dychwelyd i fro ei febyd ar ganol y pandemig. Dechreuodd weithio ym mgheginau bwytai Eidalaidd Caerdydd a'r Fro fel golchwr llestri yn 13 oed. Dros y blynyddoedd esgynodd yr ysgol, a bu'n coginio ym mwytai *Mimmo's* a *Valentino's* yn y Bontfaen, a *Signor Valentino's* ym Mae Caerdydd, cyn agor bwyty *Mamma Mia* yn Nhreganna.

Wrth ddychwelyd i Gaerdydd ym mis Mehefin y llynedd, aeth James ati i sefydlu busnes newydd. Y canlyniad yw *Pasta Pronto*, sy'n cynnig 'prydau pasta o safon bwyty i'ch drws', ac arlwy o seigiau cyfarwydd. Wedi blynyddoedd o arsylwi ar yr hyn mae trigolion y ddinas yn mwynhau mewn bwytai, fe luniodd James fwydlen syml o 'hen ffefrynnau'. Mae'n debyg mai'r *Pasta Vito* yw'r ffefryn o bell ffordd – penne cyw iâr a bacwn, madarch a hufen – ond fe welwch chi hefyd ar y fwydlen ddwyieithog *Sbageti Bolognese, Bara Garlleg* a *Penne Pesto.*

Ddim sbel ar ôl i'r chwiban gogoneddus hwnnw gael ei chwythu ar ddiwedd y gêm fawr, cyrhaeddodd fy archeb yn brydlon a Chymro Cymraeg (mewn mwgwd diogelwch) wrth y drws. Yn yr archeb yr oedd *salad caprese* llawn blas marchruddugl a finegr Balsamig, penne Amatriciana, sbageti Carbonara ac i bwdin, Tiramisu ysgubol. Wedi'r fath fuddugoliaeth doedd chwysu yn y gegin ddim yn apelio o gwbl, felly plesiodd wasanaeth ddi-ffwdan *Pasta Pronto* yn fawr. Roedd hefyd o fudd bod y cwmni'n chwifio baner coch gwyn a gwyrdd, ac yn cefnogi'r iaith Gymraeg.